Ymchwil Gymdeithasol Rhif:
03/2024
Dyddiad cyhoeddi:
31/01/2024

# Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83577-479-3

Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni

Dr Duncan Holtom, Rhodri Bowen a Nia Bryer

Holtom, D; Bowen, Rh; Bryer, N (2024) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 03/2024
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-cymunedau-am-waith-cymunedau-am-waith-mwy-perfformiad-gwerth-am-arian-y-rhaglenni

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Joshua Parry
Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o'r tablau ..... 2
Rhestr o'r siartiau ..... 2
Rhestr o'r ffigurau ..... 4
Geirfa ..... 5
1. Cyflwyniad ..... 6
2. Methodoleg ..... 9
3. Perfformiad y rhaglenni ..... 12
4. Cyfraniad at amcanion cydraddoldeb a nodau llesiant Llywodraeth Cymru ..... 33
5. Gwerthusiad Economaidd (gwerth am arian) ..... 46
6. Casgliadau ..... 60
Adran gyfeiriadau ..... 68

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 3.1. Trosolwg o dargedau a pherfformiad CaW, Mai 2015 – Mawrth 2023 .................. 13
Tabl 3.2. Targedau ymgysylltu diwygiedig gan Cymunedau am Waith ar gyfer pob un o Weithrediadau ESF, Mai 2015 – Mawrth 2023 ...................................................... 17
Tabl 3.4. Targedau diwygiedig CaW ar gyfer nifer y cleientiaid a gafodd swyddi, ar gyfer 2022, a'r targedau diwygiedig ar gyfer 2023, ar ôl diwygio ac ymestyn y rhaglen ... 23
Tabl 3.5. Deilliannau amgen ar gyfer cyfranogwyr CaW pan adawsant y rhaglen, Mai 2015 - Mawrth 2023 .......................................................................................... 28
Tabl 4.1. Gweithgaredd i fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol a thystiolaeth o'i effaith ...... 35
Tabl 5.1. Cyllid a gwariant CaW, Mai 2015 - Mawrth 2023 .................................................. 46
Tabl 5.2. Gwariant fesul gweithrediad, Mai 2015-Rhagfyr 2022 .......................................... 48
Tabl 5.3. Cyllid ar gyfer CaW+, Ebrill 2018 - Mawrth 2023 .................................................. 50
Tabl 5.4. Cyllid ar gyfer Blaenoriaeth un a Blaenoriaeth tri CaW, Mai 2015 - Mawrth 2023. 51
Tabl 5.5. Cyllid ar gyfer CaW+, Ebrill 2018-Mawrth 2023 .................................................... 51
Tabl 5.6. Y gost fesul swydd: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr) .................................................................................................. 55
Tabl 5.7. Amcangyfrif o'r gost fesul swydd 'ychwanegol': CaW a CaW+ ............................. 58

**Rhestr o'r siartiau**

Siart 3.1. Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu ar gyfer cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai Di-waith yn yr Hirdymor (B1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (B3), Mawrth 2019 - Mawrth 2023 ............................................... 14
Siart 3.2. Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, Dwyrain Cymru, Mawrth 2019 - Mawrth 2023 ..................................................................... 15
Siart 3.3. Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2019 - Mawrth 2023 ................................................ 15
Siart 3.4. Cyfanswm y cysylltiadau â CaW fesul blwyddyn, Dwyrain Cymru, Ebrill 2018 - Mawrth 2023 .......................................................................................... 16
Siart 3.5. Cyfanswm y cysylltiadau â CaW fesul blwyddyn, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Ebrill 2018 - Mawrth 2023 ........................................................................ 16

Siart 3.6. Canran y cyfranogwyr CaW B1 sy’n ddi-waith yn yr hirdymor gyda nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth ddi-waith Cymru ....... 18
Siart 3.7. Canran y cyfranogwyr CaW B3 â gwahanol nodweddion (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth Cymru o bobl ifanc sy'n NEET ....... 19
Tabl 3.3. Trosolwg o berfformiad CaW+ yn erbyn y disgwyliadau, Ebrill 2018 - Mawrth 2023. ....... 20
Siart 3.8. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o CaW+ a pherfformiad gwirioneddol y rhaglenni: cysylltiadau â chyfranogwyr, Ebrill 2018 - Mawrth 2023 ....... 21
Siart 3.9. Canran y cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Ebrill 2018 - Mawrth 2023), o gymharu â’r boblogaeth economaidd anweithgar a di-waith yng Nghymru....... 22
Siart 3.10. Nifer y cleientiaid CaW a gafodd swyddi, Ebrill 2018 - Mawrth 2023 ....... 24
Siart 3.11. Perfformiad cronnol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, Mawrth 2020-Mawrth 2023 ....... 25
Siart 3.12. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, yn Nwyrain Cymru, Mawrth 2020-Mawrth 2023....... 26
Siart 3.13. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2020-Mawrth 2023 26
Siart 3.14. Nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy CaW+: Disgwyliadau Llywodraeth Cymru a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen, Ebrill 2018 - Mawrth 2023....... 27
Siart 3.15. Nifer cyfranogwyr CaW a oedd yn economaidd anweithgar a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau, Mai 2015 - Mawrth 2023) .. 29
Siart 3.16. Nifer y cyfranogwyr CaW a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau, Mai 2015 - Mawrth 2023). . 30
Siart 5.1. Gwariant fesul gweithrediad, Mai 2015-Rhagfyr 2022 ....... 47
Siart 5.2. Cyfanswm y gwariant, Mai 2015-Rhagfyr 2022 ....... 49
Siart 5.3. Cost fesul cysylltiad: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg ....... 53

Siart 5.4. Cost fesul cleient a gafodd swydd: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg, heb gynnwys OPUS (ffigurau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr) ....................................................56

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 3.1. Perfformiad yn erbyn y targedau ymgysylltu a'r cleientiaid a gafodd swyddi yn ôl ardal gyflawni (Mai 2015-Mawrth 2023) .........................................................................32

**Geirfa**

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ALI | Awdurdod Lleol |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| CaW+ | Cymunedau am Waith a Mwy |
| CCA | Corff Cyflawni Arweiniol |
| CCG | Cronfa Cynhwysiant Gweithredol |
| CGGC | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| COVID | Clefyd y Coronafeirws |
| DC | Dwyrain Cymru |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| GCC | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| JRF | Sefydliad Joseph Rowntree |
| LLWR | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| NEET | Y Rhai Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant |
| PaCE | Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth |
| PHE | Public Health England |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1. Ym mis Medi 2021, penododd Llywodraeth Cymru Ymchwil OB3, mewn cydweithrediad â People and Work, IFF Research, Prifysgol Caerdydd a Dateb, i gynnal gwerthusiad o'r rhaglenni Cymunedau am Waith (CaW) a Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+).

1.2. Nod cyffredinol y rhaglenni yw cynyddu cyflogadwyedd (a chyflogaeth) ymysg oedolion sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, a lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Disgrifir y dull o gyflawni'r rhaglen, y cyllid, a'r targedau ar gyfer y ddwy raglen yn fanylach yn yr adroddiad gwerthusiad proses (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Y rhaglenni**

1.3. Disgrifir y dull o gyflawni'r ddwy raglen, y cyllid a'u targedau, yn fanylach yn yr adroddiad gwerthusiad proses (Llywodraeth Cymru, 2023a). I grynhoi, mae cymorth a ddarperir gan y rhaglenni yn canolbwyntio ar ymgynghorwyr a mentoriaid[1], yn achos CaW a mentoriaid yn achos CaW+. Eu nod yw cefnogi cyfranogwyr drwy gyfarfod yn rheolaidd, naill ai wyneb yn wyneb, dros y ffôn a/neu drwy alwad fideo, meithrin cydberthynas ac ymddiriedaeth a darparu cymorth mentora dwys a chyngor arbenigol ar gyflogaeth. Maent hefyd yn hwyluso mynediad i hyfforddiant, lleoliadau gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli ac yn cyfeirio pobl at wasanaethau cymorth, i helpu i gryfhau hunanhyder a chymhelliant y cyfranogwyr a’u helpu i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth (fel chwilio am swydd mewn ffordd aneffeithiol, lefel isel o sgiliau galwedigaethol a/neu sgiliau meddal neu ddim sgiliau o'r fath o gwbl).

*Y cyllid ar gyfer y rhaglenni*

[1] Mae Cynghorwyr Cyflogaeth Cymunedol yn gynghorwyr cyflogaeth profiadol sydd ar secondiad o DWP i weithio gyda'r rhai yr aseswyd bod angen y lleiaf o gymorth arnynt; ac mae Mentoriaid Ieuenctid ac Oedolion ar secondiad o awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i weithio gyda chyfranogwyr yr aseswyd bod angen 12 mis o gymorth arnynt cyn y byddant yn barod i gael swydd, sef cymorth dwysach na'r hyn a ddarperir gan gynghorwyr.

1.4. Ariennir CaW ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), a ddarperir drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Llywodraeth Cymru a DWP, ac ariennir CaW+ gan Lywodraeth Cymru.

1.5. Darperir cyllid ESF yng Nghymru drwy ddwy Raglen Weithredol: Rhaglen ESF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd (GCC) 2014-2020 a Rhaglen ESF Dwyrain Cymru (DC) 2014-2020. Mae'r ddwy Raglen Weithredol yn seiliedig ar Flaenoriaethau sy'n disgrifio nod lefel uchel y Rhaglen Weithredol. Mae CaW yn mynd i’r afael â dwy o’r blaenoriaethau: Blaenoriaeth 1 (B1): Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy, sy'n anelu at gynyddu cyflogadwyedd pobl sy'n economaidd anweithgar[2] ac sy'n ddi-waith yn yr hirdymor[3], sy'n 25 oed a throsodd ac sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth; a Blaenoriaeth 3 (B3): Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Pobl Ifanc, sy'n anelu at leihau nifer y bobl ifanc 14-19 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

**Yr adroddiad hwn**

1.6. Nod y gwerthusiad yw rhoi tystiolaeth gadarn i Lywodraeth Cymru am effaith y rhaglenni CaW a CaW+. Hefyd, mae angen cynnal y gwerthusiad er mwyn bodloni amodau cyllido'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae hwn yn un o bedwar adroddiad gwerthuso sy'n mynd i'r afael â hyn.[4] Mae’n canolbwyntio ar berfformiad a gwerth am arian y rhaglenni ac yn mynd i’r afael â’r amcanion canlynol:

- rhoi diweddariad ar gynnydd yn erbyn targedau'r rhaglenni;
- adolygu a oes amrywiadau mewn perfformiad rhwng pedwar gweithrediad CaW a rhaglen CaW+ a nodi unrhyw resymau dros yr amrywiadau hyn;
- adolygu sut y mae gweithrediadau CaW wedi integreiddio a chyflawni gweithgaredd sy'n ymwneud â'r themâu trawsbynciol;[5]
- asesu gwerth am arian y rhaglenni o gymharu â rhaglenni cyflogadwyedd eraill.

---

[2] Pobl economaidd anweithgar yw'r rhai nad ydynt mewn cyflogaeth nad ydynt wedi ac/neu nad ydynt yn gallu dechrau gweithio o fewn y 2 wythnos nesaf.

[3] Pobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor yw'r rhai sydd wedi bod wrthi'n chwilio am waith o fewn y 4 wythnos ddiwethaf, ond sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na 12 mis.

[4] Mae'r adroddiadau eraill yn canolbwyntio ar: theori newid y rhaglenni a gwerthusiad proses; perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni; ac effaith y rhaglenni (y gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith). Mae adroddiad cryno cyffredinol hefyd ar gael.

[5] Nid yw'r rhaglen CaW+ yn cael ei hariannu gan ESF, ac felly nid yw'r themâu trawsbynciol yn berthnasol.

1.7. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- mae adran dau yn amlinellu dull a methodoleg y gwerthusiad;
- mae adran tri yn amlinellu perfformiad y rhaglenni yn erbyn y targedau a'r disgwyliadau o ran nifer y cysylltiadau, nifer y cleientiaid a gafodd swyddi a deilliannau eraill;
- mae adran pedwar yn ystyried cyfraniad y rhaglenni at amcanion cydraddoldeb a nodau llesiant Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ar gyfer CaW, y gweithgaredd i gefnogi'r Themâu Trawsbynciol;
- mae adran pump yn asesu gwerth am arian y rhaglenni o gymharu â rhaglenni cyflogadwyedd eraill; a
- mae adran chwech yn amlinellu casgliadau'r adroddiad.

## 2. Methodoleg

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata'r rhaglenni yn bennaf, ond mae hefyd yn defnyddio gwybodaeth o waith maes a wnaed gyda staff (yr adroddir arno yn yr adroddiad proses, Llywodraeth Cymru, 2023a) a chyfranogwyr y rhaglenni, yr adroddir arno yn yr adroddiad ar nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru 2024a).

### Dadansoddiad o ddata'r rhaglenni

2.2 Mae'r broses casglu data ar gyfranogwyr CaW yn broses ganolog. Mae pob awdurdod lleol (ALl) neu gyngor gwirfoddol sirol yn darparu data i Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu cynnwys yn y set ddata ganolog. Mae'r set ddata ganolog hon yn cynnwys gwybodaeth am yr holl gyfranogwyr a gefnogir gan bedwar gweithrediad CaW. Rhannwyd fersiwn dienw o set ddata CaW â'r tîm gwerthuso a defnyddiwyd hyn i nodi nodweddion y cyfranogwyr (e.e. o ran eu hethnigrwydd a'u rhywedd); y deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau o gyfranogwyr; a pherfformiad pedwar gweithrediad CaW (gweler adran 3). Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth nodi, er bod set ddata cyfranogwyr CaW yn adnodd cyfoethog, mae'r posibilrwydd o'i dadansoddi a'i defnyddio'n effeithiol yn cael ei gyfyngu gan y ffaith ei bod yn cael ei chadw mewn taenlen Microsoft Excel yn hytrach na chronfa ddata rheoli cleientiaid fwy soffistigedig.[6]

2.3 Mae'r broses casglu data ar gyfranogwyr CaW+ wedi'i datganoli. Mae pob awdurdod lleol (ALl) neu gyngor gwirfoddol sirol yn darparu data mewn fformat Microsoft Excel i Lywodraeth Cymru, ond mae ansawdd a chysondeb y data a gofnodir (gan ALlau neu gynghorau gwirfoddol sirol) yn amrywio ac nid oes cronfa ddata gyfatebol o gyfranogwyr ar gyfer CaW+. Mae hyn, er enghraifft, yn cyfyngu ar y gallu i ddadansoddi deilliannau ar gyfer gwahanol grwpiau o gyfranogwyr.

2.4 Rhannwyd data gwybodaeth reoli ar gyfer CaW a CaW+ hefyd ac fe'u defnyddiwyd i asesu perfformiad yn erbyn y targedau dros amser.

---

[6] Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, mae nifer o raglenni eraill Llywodraeth Cymru megis Prentisiaethau a Twf Swyddi Cymru+, yn defnyddio Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

**Dadansoddiad o ddata economaidd**

2.5 Mae'r gwerthusiad economaidd yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata ar gyllid a gwariant y rhaglenni a ddarparwyd gan y rhaglenni CaW a CaW+. Cynhyrchwyd data ychwanegol ar gostau rhaglenni tebyg drwy adolygiad o werthusiadau o raglenni dethol yng Nghymru, gyda gwybodaeth wedi'i darparu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chwiliad desg am ddata ar raglenni tebyg mewn rhannau eraill o'r DU.

**Cryfderau a chyfyngiadau**

2.6 Gellir asesu cyfanswm costau a pherfformiad y ddwy raglen gan ddefnyddio'r data sydd ar gael. Fodd bynnag, fel un o raglenni'r ESF, roedd gan CaW fwy o dargedau ac roedd yn ofynnol iddi gasglu mwy o ddata ar berfformiad a gwariant y rhaglen na CaW+. Felly, fel yr amlinellir yn adrannau 3 a 5, mae llawer mwy o gyfle i ddadansoddi perfformiad CaW ac i ddadansoddi cyfansoddiad gwariant CaW, o gymharu â CaW+. Er enghraifft, mewn sawl ffordd, mae gwariant CaW+ yn 'focs du', yn yr ystyr ei bod yn bosibl dadansoddi cyfanswm y mewnbynnau (h.y., cyllid ar gyfer y rhaglen) yn erbyn cyfanswm yr 'allbynnau', megis nifer y bobl a gefnogwyd, ond nid sut y caiff y mewnbynnau eu gwario.

2.7 Mae cymariaethau o gostau a eilliannau gwahanol raglenni yn cael eu cymhlethu gan wahaniaethau yn y cyd-destunau y maent yn gweithredu ynddynt a'r cyfranogwyr y maent yn eu cefnogi oherwydd gallai'r ffactorau hyn gynyddu neu leihau costau. Gall rhaglenni:

- weithredu mewn gwahanol gyfnodau o amser a gwahanol gyd-destunau, yn fwyaf nodedig y rhai a oedd yn gweithredu cyn y pandemig a'r rhai a oedd yn gweithredu yn ystod y pandemig (fel CaW a CaW+), sy'n cael eu cymhlethu gan effaith y pandemig ar gysylltiadau, y ffordd y cyflawnwyd y rhaglenni a nifer y cleientiaid a gafodd swyddi. Yn fwy cyffredinol, mae chwyddiant a newidiadau dros amser yn yr economi a'r farchnad lafur, a'r system cymorth cyflogaeth

ehangach[7], yn debygol o effeithio ar gostau, cysylltiadau, a nifer y cleientiaid a gafodd swyddi; a

- cefnogi gwahanol garfanau o gyfranogwyr. Er enghraifft, roedd y rhaglen CaW wedi'i thargedu'n fwy at gyfranogwyr â mwy o rwystrau i gyflogaeth a oedd yn debygol o fod yn anoddach ymgysylltu â nhw ac yn debygol o fod yn ddrutach i'w cynorthwyo i gael gwaith, o gymharu â chyfranogwyr CaW+ (Llywodraeth Cymru, 2024a).

2.4. Yn olaf, gall cymariaethau o gostau a deilliannau gwahanol raglenni, nad ydynt yn ystyried effaith (neu ychwanegedd) fod yn ddiffygiol. Er enghraifft, gall rhaglen â chostau isel, o gymharu â nifer fawr o gleientiaid a gafodd swyddi, ymddangos yn hynod effeithlon, ond efallai na fydd yn gosteffeithiol os mai ychydig iawn o'r swyddi a gafwyd sy'n swyddi ychwanegol (h.y. rhai na fyddent wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad). Felly mae diffyg tystiolaeth werthuso gadarn o ychwanegedd rhaglenni tebyg yn gyfyngiad allweddol wrth asesu gwir gosteffeithiolrwydd gwahanol raglenni.

[7] Fel y dengys y gwerthusiad proses (Llywodraeth Cymru, 2022a), gall newidiadau yn y system gyflogaeth ehangach, megis cyflwyno rhaglenni newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, effeithio ar nifer y cysylltiadau.

# 3. Perfformiad y rhaglenni

## Cyflwyniad

3.1 Mae’r adran hon yn adolygu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y rhaglenni CaW a CaW+ drwy asesu'r cynnydd yn erbyn y targedau mewn perthynas â:

- chysylltiadau (h.y. nifer y bobl a gofrestrodd ar y rhaglenni);
- deilliannau swyddi (h.y. nifer y cyfranogwyr - pobl a gefnogir gan y rhaglen - a gafodd swyddi); ac
- yn achos CaW, deilliannau amgen, megis lleoliadau gwaith yr ymgymerodd y cyfranogwyr â nhw.

## Trosolwg o dargedau a pherfformiad CaW

3.2 Cynigir targedau ar gyfer CaW gan noddwr y prosiect a chânt eu negodi gyda WEFO a'u cymeradwyo ganddi. Fel yr amlinellir isod, yn 2019, cafodd y targedau ar gyfer CaW eu diwygio i adlewyrchu perfformiad y rhaglen yn well.

**Tabl 3.1. Trosolwg o dargedau a pherfformiad CaW, Mai 2015 – Mawrth 2023**

| | Cysylltiadau | | | Cleientiaid a gafodd swyddi | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Targed y proffil (Nifer) | Perfformiad gwirioneddol (Nifer) | Gwahaniaeth canrannol (%) | Targed y proffil (Nifer) | Perfformiad gwirioneddol (Nifer) | Gwahaniaeth canrannol (%) |
| DC B1 Economaidd anweithgar | 3,119 | 2,664 | -15 | 1,444 | 1,195 | -17 |
| DC B1 Di-waith yn yr hirdymor | 2,656 | 2,747 | 3 | 939 | 1,085 | 16 |
| DC B3 NEET | 2,939 | 3,097 | 5 | 1,359 | 1,511 | 11 |
| **DC cyfanswm** | **8,714** | **8,508** | **-2** | **3,742** | **3,791** | **1** |
| GCC B1 Economaidd anweithgar | 10,383 | 9,653 | -7 | 4,655 | 4,268 | -8 |
| GCC B1 Di-waith yn yr hirdymor | 7,982 | 8,110 | 2 | 2,767 | 3,023 | 9 |
| GCC B3 NEET | 10,949 | 11,646 | 6 | 5,292 | 5,851 | 11 |
| **Cyfanswm GCC** | **29,314** | **29,409** | **0** | **12,714** | **13,142** | **3** |
| Cymru B1 Economaidd anweithgar | 13,502 | 12,317 | -9 | 6099 | 5,463 | -10 |
| Cymru B1 Di-waith yn yr hirdymor | 10,638 | 10,857 | 2 | 3706 | 4,108 | 11 |
| Cymru B3 NEET | 13,888 | 14,743 | 6 | 6651 | 7,362 | 11 |
| **Cyfanswm Cymru** | **38,028** | **37,917** | **0** | **16,456** | **16,993** | **3** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru


### Perfformiad CaW: cysylltiadau

3.3 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai 2015 a diwedd Mawrth 2023, ymgysylltodd CaW â thua 38,000 o bobl.[8] Fel y dengys Siart 3.1, mae perfformiad rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu ar gyfer Blaenoriaeth 3 (B3) wedi bod yn llawer cryfach na'r

[8] Erbyn diwedd mis Mawrth 2023 cyfanswm y cyfranogwyr B1 a B3 oedd 37,917.

disgwyl ac roedd yn 106 y cant o'r targed ym mis Mawrth 2023. Mae hyn yn cymharu â pherfformiad ychydig yn fwy amrywiol ar draws Blaenoriaeth 1 (B1) lle roedd y cysylltiadau gyda chyfranogwyr economaidd anweithgar yn 91 y cant a'r cysylltiadau gyda chyfranogwyr di-waith hirdymor yn 102 y cant o'r targed ym mis Mawrth 2023.


**Siart 3.1. Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu ar gyfer cyfranogwyr Economaidd Anweithgar a'r rhai Di-waith yn yr Hirdymor (B1) a Phobl Ifanc sy'n NEET (B3), Mawrth 2019 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru


3.4 Dengys Siartiau 3.2. a 3.3. fod y patrymau o ran perfformiad yn debyg yn Nwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCC). Yn y ddwy ardal, cynyddodd y perfformiad mewn perthynas â'r rhai economaidd anweithgar ac yn benodol, oedolion 25 oed a hŷn a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor (blaenoriaeth un), yn sydyn wedi i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio yn 2021 ac wedi i'r targedau gael eu diwygio (a drafodir isod). Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, gwelwyd rhywfaint o leihad yn y perfformiad mewn perthynas â phobl ifanc, er ei fod yn dal i fod yn uwch na'r targed.

**Siart 3.2 Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, Dwyrain Cymru, Mawrth 2019 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru


**Siart 3.3 Perfformiad cronnol y rhaglen CaW yn erbyn y targedau ymgysylltu, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2019 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru


3.5 Fel y dengys Siartiau 3.4 a 3.5., mae'r gostyngiad yn nifer y cysylltiadau blynyddol gan CaW yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 a'r 'cyfnodau clo' cysylltiedig o fis Mawrth 2020 ymlaen.

**Siart 3.4. Cyfanswm y cysylltiadau â CaW fesul blwyddyn, Dwyrain Cymru, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

**Siart 3.5. Cyfanswm y cysylltiadau â CaW fesul blwyddyn, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

3.6 Yn 2019, cafodd y rhaglen CaW ei hymestyn tan fis Mawrth 2023 ac addaswyd rhai o’r targedau i adlewyrchu’n well berfformiad y rhaglen ers 2015**.** Cafodd y targedau ar gyfer ymgysylltu â chyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai di-waith yn yr hirdymor eu cwtogi, o ystyried y perfformiad siomedig. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn yn rhannol gan gynnydd yn y targed ar gyfer ymgysylltu â nifer y bobl ifanc NEET (B3). Yn 2022, estynnwyd y rhaglen eto gyda'r cyfnod cyflawni'n parhau tan fis Mawrth 2023 cyn dod i ben ym mis Hydref 2023. Amlinellir effaith y targedau diwygiedig ar y targedau gwreiddiol yn nhabl 3.2.

**Tabl 3.2. Targedau ymgysylltu diwygiedig gan Cymunedau am Waith ar gyfer pob un o Weithrediadau ESF, Mai 2015 – Mawrth 2023**

| Grŵp | Targed Gwreiddiol | Targed wedi'i adolygu (addasu) | % y newid |
|---|---|---|---|
| B1 Economaidd Anweithgar DC | 6,771 | 3,119 | -54 |
| B1 Economaidd anweithgar GCC | 20,312 | 10,383 | -49 |
| B1 Di-waith yn yr Hirdymor DC | 3,488 | 2,656 | -24 |
| B1 Di-waith yn yr Hirdymor GCC | 10,464 | 7,982 | -24 |
| B3 DC | 2,565 | 2,939 | 15 |
| B3 GCC | 7,693 | 10,949 | 42 |
| **Cyfanswm** | **51,293** | **38,028** | **-26** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru


3.7 Fel y dengys Siart 3.6, mae canran y bobl dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 25 oed a throsodd sy'n ddi-waith, y bu i raglen CaW ymgysylltu â nhw, yn debyg i boblogaeth ddi-waith Cymru.[9] Fodd bynnag, o gymharu â phoblogaeth economaidd anweithgar Cymru, mae cyfranogwyr CaW:

- yn fwy tebygol o fod yn fenywod; heb unrhyw gymwysterau; ac yn 55 oed a throsodd; a
- yn llai tebygol o fod yn anabl neu o allu siarad Cymraeg na'r boblogaeth economaidd anweithgar yng Nghymru.

[9] At ddibenion cymharu mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer oedolion o oedran gweithio (16-64) sy'n ddi-waith.

Fel y nodwyd, ystyrir y rhesymau am hyn yn yr adroddiad atodol, sy'n ymchwilio i brofiadau'r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru 2024a).

**Siart 3.6. Canran y cyfranogwyr CaW B1 sy'n ddi-waith yn yr hirdymor gyda nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth ddi-waith Cymru**





Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, Arolwg o'r Llafurlu

3.8 Fel y dengys Siart 3.7, o gymharu â'r holl bobl ifanc sy'n NEET[10], mae cyfranogwyr CaW B3:

- yn fwy tebygol o fod yn ddynion;
- yn llai tebygol o fod heb unrhyw gymwysterau, o fod yn anabl neu o ddod o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

[10] At ddibenion cymharu, ac o ystyried y cyfyngiadau yn y data, mae hyn yn seiliedig ar ddata ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. O ystyried y nifer bach o gyfranogwyr CaW rhwng 16-18 oed mae hyn hefyd yn briodol. Fodd bynnag, gan nad yw'r dadansoddiad hwn ar gael ar gyfer pobl ifanc anabl, gwneir cymhariaeth â'r holl bobl ifanc 16-24 oed sy'n anabl ac sydd hefyd yn NEET.

**Siart 3.7. Canran y cyfranogwyr CaW B3 â gwahanol nodweddion (dros y cyfnod Mai 2015 - Mawrth 2023), o gymharu â phoblogaeth Cymru o bobl ifanc sy'n NEET**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, Arolwg o'r Llafurlu

**Trosolwg o ddisgwyliadau a pherfformiad CaW+**

3.9 Gosodwyd y disgwyliadau ar gyfer CaW+ gan Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar berfformiad CaW. Er mwyn ystyried y ffaith bod y rhaglen wedi'i hehangu[11] yn 2020/21 a 2021/22, mae'r disgwyliadau wedi codi yn unol â’r cynnydd mewn cyllid (cynnydd o 24% yn y cyllid yn 2020/21 a 51% yn 2021/22) o gymharu â lefelau 2018/19 a 2019/20.[12]

3.10 Mae Tabl 3.3. yn rhoi trosolwg o berfformiad CaW+ yn erbyn y disgwyliadau ers mis Ebrill 2018. Mae'n dangos y perfformiad cryf iawn a welwyd dros y cyfnod hwn.

[11] Ym mis Gorffennaf 2020, fel rhan o Ymrwymiad Cyflogadwyedd a Sgiliau COVID-19 Llywodraeth Cymru, dyrannwyd cyfanswm o tua £3 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol drwy raglen CaW+. Cafodd hyn ei gynyddu i £6 miliwn yn 2021/22. Er i gyllid Ymrwymiad COVID-19 ddod i ben yn 2021/22, dyrannodd Llywodraeth Cymru £8 miliwn i CaW+ drwy ei Gwarant i Bobl Ifanc am 3 blynedd o 2022/23 i 2024/25.

[12] Dyma'r cynnydd ar gyfer y rhaglen gyfan. Fodd bynnag, dylid nodi y gall y cynnydd yng nghyllid pob awdurdod lleol fod yn wahanol i hyn, oherwydd symudodd y rhaglen i fformiwla dyrannu wahanol yn seiliedig ar bobl sydd wedi'u hamddifadu o waith.

**Tabl 3.3. Trosolwg o berfformiad CaW+ yn erbyn y disgwyliadau, Ebrill 2018 - Mawrth 2023.**

| Cysylltiadau | | | Cleientiaid a gafodd swyddi | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Disgwyliad o ran nifer y cysylltiadau (Nifer) | Cysylltiadau gwirioneddol (Nifer) | Gwahaniaeth Canrannol (%) | Disgwyliadau o ran nifer y cleientiaid a gafodd swyddi (Nifer) | Nifer gwirioneddol y cleientiaid a gafodd swyddi (Nifer) | Gwahaniaeth canrannol (%) |
| **36,151** | **42,390** | **17** | **10,285** | **18,146** | **76** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW+ Llywodraeth Cymru

**Perfformiad CaW+: cysylltiadau**


3.11 Yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd Mawrth 2023, roedd CaW+ wedi ymgysylltu â 42,390 o bobl. Fel y dengys Siart 3.8, roedd perfformiad CaW+ yn 2018/19 a 2019/20 yn gryf, a rhagorwyd ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau a deilliannau swyddi.[13] Lleihaodd y cysylltiadau rywfaint yn dilyn y pandemig COVID-19 a'r 'cyfnodau clo' cysylltiedig o fis Mawrth 2020 ymlaen, sy'n golygu nad oedd y prosiect yn rhagori ar y disgwyliadau mwyach. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, cododd nifer y cysylltiadau ac yn 2022/23, a rhagorodd CaW+ gryn dipyn ar y disgwyliadau unwaith eto.

3.12 Roedd perfformiad cryf y rhaglen hyd yn oed yn wyneb yr heriau a grewyd yn sgil ei hehangu, effaith y pandemig COVID-19 ar ddarpar gyfranogwyr a chyfranogwyr presennol a phroblemau'n ymwneud â chyflawni'r rhaglen, yn gamp sylweddol.[14]

[13] Yn wahanol i CaW, nid oes gan CaW+ dargedau sydd wedi'u pennu'n ganolog. Yn lle hynny, roedd disgwyliad ar ran Llywodraeth Cymru y byddai pob un o'r 55 tîm yn CaW+ yn sicrhau bod o leiaf 30 o gleientiaid yn cael swyddi bob blwyddyn.

[14] Trafodir effaith y pandemig ar y rhaglen yn yr adroddiad Gwerthusiad Proses (Llywodraeth Cymru, 2023a). Mae'r adroddiad hwn, a'r adroddiad ar nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru 2023b) yn trafod effaith y pandemig ar y cyfranogwyr.

**Siart 3.8. Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o CaW+[15] a pherfformiad gwirioneddol y rhaglenni: cysylltiadau â chyfranogwyr, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW+ Llywodraeth Cymru

*Proffil demograffig y cyfranogwyr*

3.13 Mae cyfyngiadau yn y data a gesglir gan CaW+ yn golygu nad yw'n bosibl eu dadansoddi mor fanwl â data CaW. Er enghraifft, nid yw'n bosibl gwahanu nodweddion cyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith. At hynny, roedd cyfran fach o gyfranogwyr CaW+ yn gyflogedig pan wnaethant ymuno â'r rhaglen. Mae Siart 3.10 felly'n cymharu nodweddion holl gyfranogwyr CaW+ â'r holl bobl economaidd anweithgar a di-waith yng Nghymru fel y mesurau procsi gorau sydd ar gael.[16]

3.14 Fel y dengys Siart 3.9, o gymharu â'r holl bobl ddi-waith neu'r rhai sy'n economaidd anweithgar yng Nghymru, mae cyfranogwyr CaW+:


- yn fwy tebygol o fod yn ddynion, o grŵp Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol; ac
- yn llai tebygol o fod yn anabl neu o allu siarad Cymraeg.

---

[15] Mae hyn yn gosod y disgwyliadau ar gyfer ymgysylltu fel hanner ffordd rhwng disgwyliadau isaf ac uchaf Llywodraeth Cymru o 4,950-6,600 o gysylltiadau y flwyddyn, ac yn eu cynyddu yn unol â'r cynnydd mewn cyllid yn 2020/21 a 2021/22.

[16] Oherwydd bod niferoedd y bobl economaidd anweithgar yn llawer uwch na nifer y bobl ddi-waith yng Nghymru, cânt eu trin fel dau grŵp ar wahân at ddibenion cymharu, yn hytrach na'u cyfrif gyda'i gilydd fel y boblogaeth sydd 'ddim yn gweithio'.

**Siart 3.9. Canran y cyfranogwyr CaW+ â nodweddion gwahanol (dros y cyfnod Ebrill 2018 - Mawrth 2023), o gymharu â'r boblogaeth economaidd anweithgar a di-waith yng Nghymru.**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW+ Llywodraeth Cymru, Cyfrifiad 2021, Arolwg o'r Llafurlu

**Perfformiad CaW: deilliannau swyddi**

3.15 Mae nifer y deilliannau swyddi o reidrwydd yn cael eu cyfyngu gan nifer y cysylltiadau, ac yn gyffredinol, roedd lefelau uwch o ddeilliannau i'w gweld mewn ardaloedd â lefelau uwch o gysylltiadau. Felly, mae'r perfformiad yn adlewyrchu'n fras y patrymau o ran cysylltiadau, a drafodir uchod.

3.16 Fodd bynnag, er bod yr achos busnes cychwynnol wedi nodi cymhareb o chwe chysylltiad am bob cleient a gafodd swydd[17] (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a. tud. 54.), yn ymarferol, mae'r gymhareb o gysylltiadau i ddeilliannau swyddi wedi bod yn uwch, sef 2.2:1. Felly nid yw'r perfformiad gwannach na'r disgwyl mewn perthynas â chysylltiadau (a drafodir uchod) wedi cyfyngu cymaint ag y gallai ar y cyflawniadau o ran deilliannau swyddi. Fel y dengys Tabl 3.2, o ystyried y perfformiad cryf mewn perthynas â deilliannau swyddi yng ngham cyntaf y rhaglen, cafodd y targedau ar gyfer nifer yr oedolion di-waith hirdymor a phobl ifanc NEET

[17] Lleihawyd y targedau 50 y cant yn y flwyddyn weithredu gyntaf er mwyn ystyried y cyfnod sefydlu. Gan ddefnyddio gwybodaeth hanesyddol o'r rhaglen Yn Awyddus i Weithio, bydd gan Gynghorwyr Ymgysylltu â Chymunedau CaW darged Deilliant Swyddi o 2 swydd y mis a bydd gan Fentoriaid CaW darged o 1 swydd y mis.'

sy'n cael swyddi eu diwygio a'u cynyddu yn 2019. Fodd bynnag, oherwydd bod nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a gafodd swyddi yn is na'r hyn a ragwelwyd, cwtogwyd y targedau ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar a gafodd swyddi, er mwyn adlewyrchu perfformiad y prosiect yn well.

**Tabl 3.4. Targedau diwygiedig CaW ar gyfer nifer y cleientiaid a gafodd swyddi, ar gyfer 2022, a'r targedau diwygiedig ar gyfer 2023, ar ôl diwygio ac ymestyn y rhaglen**

| Grŵp | Targed gwreiddiol ar gyfer 2022 | Targed wedi'u haddasu (diwygio) ar gyfer 2023 | % y newid |
|---|---|---|---|
| Economaidd Anweithgar DC | 1,697 | 1,444 | -15 |
| Economaidd Anweithgar GCC | 4,973 | 4,655 | -6 |
| Di-waith Hirdymor DC | 834 | 939 | 13 |
| Di-waith Hirdymor GCC | 2,449 | 2,767 | 13 |
| B3 DC | 1,220 | 1,359 | 11 |
| B3 GCC | 4,204 | 5,292 | 26 |
| **Cyfanswm** | **15,377** | **16,456** | **7** |


Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

3.17 Fel y dengys Siart 3.10, cynyddodd nifer y cleientiaid B1 a gafodd swyddi yn y ddwy flynedd cyn y pandemig COVID-19 (Ebrill 2018-Mawrth 2019 ac Ebrill 2019-Chwefror 2020) cyn gostwng (o'r uchafbwynt ym mis Ebrill 2019-Chwefror 2020), yn y cyfnod ar ôl i gyfyngiadau'r pandemig gael eu llacio (Ebrill 2021-Mawrth 2022 ac Ebrill 2022-Mawrth 2023).[18] Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, arhosodd nifer y cleientiaid a gafodd swyddi yn weddol sefydlog yn ystod y ddwy flynedd cyn y pandemig COVID-19, cyn cynyddu yn y cyfnod ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio

[18] Cyflwynwyd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf ym mis Mawrth 2020, cafodd y cyfyngiadau eu llacio yn ystod haf 2020, cyn ailgyflwyno cyfyngiadau lleol yn ystod hydref 2020, ac yna gyfnod clo ar gyfer Cymru gyfan yn ystod gaeaf 2020, gyda'r rheolau'n cael eu llacio o wanwyn 2021 ymlaen (Ymchwil y Senedd, 2022a). Cafodd rhai cyfyngiadau eu hailgyflwyno ym mis Rhagfyr 2021 ond cawsant eu llacio o fis Ionawr 2022 ymlaen (Ymchwil y Senedd, 2023).

(Ebrill 2021-Mawrth 2022) ac yna ostwng yn y flwyddyn olaf (Ebrill 2022-Mawrth 2023).


**Siart 3.10. Nifer y cleientiaid CaW a gafodd swyddi, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

3.18 Erbyn diwedd mis Mawrth 2023 roedd CaW wedi cynorthwyo 16,933 o bobl i gael gwaith ac fel y dengys Siart 3.11, er gwaethaf y targedau mwy heriol, a'r heriau yn sgil y pandemig COVID-19, mae perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cleientiaid B1 a B3 a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor ac a gafodd swydd wedi bod yn gryf iawn, gyda'r ddau yn 111 o'r targed ym mis Mawrth 2023. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd perfformiad y rhaglen yn erbyn y targedau swyddi ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar B1 er yn eithaf da, yn wannach, sef 90 y cant o'r targed cyffredinol ym mis Mawrth 2023.


**Siart 3.11. Perfformiad cronnol rhaglen CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, Mawrth 2020-Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru


3.19 Fel y dengys Siart 3.12, mae perfformiad CaW yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn gymharol debyg, er bod perfformiad cryfach mewn perthynas â chyfranogwyr B1 a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor yn Nwyrain Cymru a pherfformiad cryfach mewn perthynas â chyfranogwyr B1 economaidd anweithgar yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

**Siart 3.12. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, yn Nwyrain Cymru, Mawrth 2020-Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

**Siart 3.13. Perfformiad CaW yn erbyn y targedau ar gyfer nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a'r rhai a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor (B1) a Phobl Ifanc NEET (B3) a gafodd swyddi, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Mawrth 2020-Mawrth 2023**





Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

### Perfformiad CaW+: deilliannau swyddi

3.20 Erbyn mis Mawrth 2023, roedd CaW+ wedi cynorthwyo 18,146 o gyfranogwyr i gael gwaith. Fel yr amlinellir yn Siart 3.14, parhaodd CaW+ i berfformio'n gryf hyd yn oed yn wyneb yr heriau yn sgil y pandemig COVID-19, ac mae'r rhaglen yn parhau i ragori ar y disgwyliadau. Yn yr un modd â CaW, mae'r gymhareb o gysylltiadau i gleientiaid a gafodd swyddi (2.3:1 dros bedair blynedd y rhaglen (2018/19-2021/22[19]) wedi bod yn is na'r disgwyl (disgwyliwyd iddo fod yn 3 - 4:1) ac yn debyg iawn i CaW (2.2:1).

3.21 Wrth asesu perfformiad, yn yr un modd â'r dadansoddiad o gysylltiadau CaW+, mae'r disgwyliadau ar gyfer nifer y cleientiaid sy'n cael swyddi wedi'u codi yn unol â'r cynnydd yn y cyllid ar gyfer CaW+ yn 2020/21, 2021/22 a 2022/23.

**Siart 3.14. Nifer y cleientiaid a gafodd swyddi drwy CaW+: Disgwyliadau Llywodraeth Cymru a pherfformiad gwirioneddol y rhaglen, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW+ Llywodraeth Cymru

### Deilliannau amgen CaW

3.22 Fel y dengys Tabl 3.5., ni lwyddodd CaW i gyrraedd ei thargedau ar gyfer deilliannau sylfaenol amgen. Ar gyfer cyfranogwyr B1 na chafodd swydd, y

[19] Os caiff blwyddyn gyntaf y rhaglen, pan oedd nifer y cleientiaid a gafodd swyddi yn isel ei heithrio (ar y sail ei bod yn debygol y bydd oedi rhwng ymgysylltu a dechrau swydd), mae'r gymhareb yn gostwng i 2:1, ac mae angen llai o gysylltiadau ar gyfer pob cleient sy'n cael swydd (mae hyn yn cwmpasu'r cyfnod 2019/20, 2020/21 a 2021/22).

deilliannau sylfaenol amgen oedd: mynd i addysg/hyfforddiant neu chwilio am swydd neu ennill tystysgrifau neu gymwysterau'n gysylltiedig â gwaith. Ar gyfer cyfranogwyr B3 nad oeddent wedi cael swydd, y deilliant sylfaenol amgen oedd symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant. Mae'n debygol bod CaW wedi methu â chyrraedd y targedau hyn ar gyfer deilliannau amgen, yn rhannol o leiaf, oherwydd llwyddiant y rhaglen o ran sicrhau bod cysylltiadau'n arwain at swyddi (a 'ddisodlodd' y deilliannau amgen hyn i bob pwrpas).

**Tabl 3.5. Deilliannau amgen ar gyfer cyfranogwyr CaW pan adawsant y rhaglen, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| **Deilliant pan adawsant** | **DC B1 Targed** | **DC B1 Costau Gwirioneddol** | **GCC B1 Targed** | **GCC B1 Costau Gwirioneddol** | **DC B3 Targed** | **DC B3 Costau Gwirioneddol** | **GCC B3 Targed** | **GCC B3 Costau Gwirioneddol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwilio am Swyddi [20] | 533 | 258 | 1,588 | 1,207 | - | 94 | - | 480 |
| Symud ymlaen i addysg/hyfforddiant | - | 110 | - | 119 | 169 | 221 | 246 | 457 |
| Ennill cymhwyster | - | 384 | - | 1327 | - | 294 | - | 1,069 |
| Ardystiad sy'n berthnasol i waith | - | 1,052 | - | 3,882 | - | 542 | - | 2,269 |
| Cymhwyster ac ardystiad | *1,926* | *1,436* | *5,713* | *5,209* | - | *836* | - | *3,538* |


Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

3.23 Fel yr amlinellir yn Siartiau 3.15 a 3.16, yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ill dau, roedd nifer y cyfranogwyr CaW a gwblhaodd brofiad gwaith neu

[20] Roedd y targed hwn yn berthnasol i gyfranogwyr economaidd anweithgar yn unig.

leoliad gwirfoddoli yn llawer llai na'r disgwyl. Roedd y pandemig COVID-19 yn ffactor, gan fod cyn lleied o leoliadau gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli ar gael yn ystod 'cyfnod clo' COVID-19, a dywedodd y staff a gyfwelwyd fod llawer llai o ddiddordeb ymhlith y cyfranogwyr mewn manteisio ar y cyfleoedd hynny, yn arbennig yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, fel y dengys siartiau 3.15 a 3.16, gostyngodd y niferoedd, yn enwedig nifer y cyfranogwyr economaidd anweithgar a gwblhaodd leoliad gwaith neu gyfle gwirfoddoli, yn y cyfnod cyn y pandemig (2018-2019 a 2019-2020), ac maent wedi aros yn isel iawn ers hynny. Mae hyn yn awgrymu nad y pandemig COVID-19 oedd yr unig reswm, a bod ffactorau eraill hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn yn nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd leoliad gwaith neu gyfle gwirfoddoli. Ymddengys fod hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o gyfranogwyr wedi mynd yn syth i waith, yn hytrach na chwblhau lleoliadau gwirfoddoli neu leoliadau gwaith yn gyntaf (Llywodraeth Cymru, 2023a).


**Siart 3.15. Nifer cyfranogwyr CaW a oedd yn economaidd anweithgar[21] a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau, Mai 2015 - Mawrth 2023)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

[21] Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer cyfranogwyr B3

**Siart 3.16. Nifer y cyfranogwyr CaW a oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor[22] a gwblhaodd brofiad gwaith neu leoliad gwirfoddoli o gymharu â'r targedau, Mai 2015 - Mawrth 2023).**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

**Amrywiad lleol**

3.24 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar berfformiad cyffredinol y ddwy raglen, ond mae'n bwysig nodi bod amrywiaeth mawr mewn perfformiad rhwng ardaloedd ac mewn rhai ardaloedd, rhwng gwahanol dimau yn yr un ardal ALl. Fel y dengys Ffigur 3.1 roedd y perfformiad:

- yn gryf yng Ngorllewin Cymru (Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe);
- yn gryf yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru, er bod Wrecsam wedi cael trafferthion; ac
- yn fwy cymysg yn Ne-ddwyrain Cymru, er bod Torfaen a Rhondda Cynon Taf wedi perfformio’n gryf, a bod y rhan fwyaf o’r rhanbarth wedi perfformio'n dda mewn perthynas â nifer y cleientiaid a gafodd swyddi.


3.25 Mae ymchwil ansoddol yn awgrymu y gall ffactorau lleol helpu i egluro'r gwahaniaethau mewn perfformiad (o gymharu â'r targedau) gwahanol dimau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:


[22] Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer cyfranogwyr B3.

- gwahaniaethau o ran cydgysylltu rhwng gwahanol wasanaethau cymorth cyflogaeth (a allai fod yn haws lle mae'r galw'n cyfateb yn agosach i'r capasiti) a drafodir yn yr adroddiad Gwerthusiad Proses (Llywodraeth Cymru, 2023a);
- gwahaniaethau ym maint a phroffil y boblogaeth a gwmpesir gan dimau (gan fod dwysedd poblogaeth a maint y boblogaeth ill dau yn debygol o ddylanwadu ar ba mor hawdd neu anodd yw ymgysylltu â phobl) (Llywodraeth Cymru, 2023a).

3.26 Nid yw'n ymddangos bod hyn i'w briodoli'n gyfan gwbl i'r naill ffactor na'r llall. Er enghraifft, fe wnaeth siroedd yng ngorllewin Cymru â dwysedd poblogaeth cymharol isel a chyfanswm poblogaeth bach ragori ar eu targedau, tra bod siroedd fel Casnewydd, sydd â dwysedd poblogaeth cymharol uchel a chyfanswm poblogaeth mawr, wedi cael anhawster. Yn yr un modd, roedd Pen-y-bont ar Ogwr, ardal ble y nododd rheolwyr y rhaglenni bod gwasanaethau cymorth cyflogaeth wedi'u hintegreiddio'n gadarn, wedi cael anhawster gyda chysylltiadau.

**Ffigur 3.1. Perfformiad yn erbyn y targedau ymgysylltu a'r cleientiaid a gafodd swyddi yn ôl ardal gyflawni (Mai 2015-Mawrth 2023)**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

# 4. Cyfraniad at amcanion cydraddoldeb a nodau llesiant Llywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

4.1 Roedd trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol, drwy helpu pobl i gael gwaith (neu addysg neu hyfforddiant) yn ganolog i nod a diben CaW a CaW+ (Llywodraeth Cymru, 2023a) ac fel yr amlinellwyd yn adran 3, roedd y perfformiad o ran y niferoedd a gafodd swyddi yn gryf. Mae cyfraddau diweithdra yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau ac mae perfformiad y rhaglenni o ran ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl a'u cynorthwyo (er enghraifft, o ran oedran, rhyw, ethnigrwydd, iechyd ac anabledd) i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth (a amlinellir yn adran 3; gweler hefyd Llywodraeth Cymru, 2024a) hefyd yn gryf. Mae hyn yn golygu eu bod hefyd yn gwneud cyfraniadau uniongyrchol pwysig at nifer o nodau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, megis 'dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi'; a'i saith nod llesiant, yn fwyaf nodedig, 'Cymru lewyrchus' a 'Cymru sy'n fwy cyfartal' (Llywodraeth Cymru, 2020a).

## Themâu Trawsbynciol

4.2 Nod y themâu trawsbynciol yw gwella ansawdd, effaith a gwaddol rhaglenni a ariennir gan ESF (fel CaW) ac ychwanegu gwerth at y rhaglenni yn eu cyfanrwydd. Mae angen camau i fynd i'r afael â'r rhain mewn nifer o feysydd a dylid eu hymgorffori yn y broses o ddylunio a chyflawni rhaglenni. Mae tair thema drawsbynciol ar gyfer Cymru sy’n berthnasol i’r rhaglen CaW:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, a'r Gymraeg
- Datblygu Cynaliadwy;
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

4.3 Fel y nodwyd, roedd trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal yn ganolog i nod a diben CaW. Fel un o raglenni'r ESF, nododd CaW nifer o ddangosyddion themâu trawsbynciol ychwanegol ar lefel prosiect hefyd i ddarparu tystiolaeth bellach o weithgaredd i gefnogi'r themâu. Mae Tabl 4.1 yn amlinellu'r dangosyddion lefel achos y cytunwyd arnynt ar gyfer pob un o'r themâu

trawsbynciol ar gyfer CaW; gweithgaredd a adroddir gan y rhaglen ar gyfer pob un; a thystiolaeth o'r gwerthusiad.

**Tabl 4.1 Gweithgaredd i fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol a thystiolaeth o'i effaith**

| Themâu Trawsbynciol | Dangosyddion Lefel Achos | Gweithgaredd a adroddwyd gan y rhaglen | Gweithgaredd neu effaith ychwanegol a nodwyd gan y gwerthusiad |
|---|---|---|---|
| Cyfle Cyfartal, Prif Ffrydio Rhywedd a'r Gymraeg | Gweithgaredd gwahanu ar sail galwedigaeth (gweithgaredd anhraddodiadol) | • Mae cynghorwyr a mentoriaid CaW yn trafod dyheadau'r cyfranogwyr fel rhan o gyfweliadau diagnostig, gan herio rhagdybiaethau ynghylch rolau traddodiadol a chefnogi'r cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth mewn meysydd newydd.<br>• Drwy roi 'amser anghyfyngedig i gynghorwyr/mentoriaid gyda chyfranogwyr, mae'n eu galluogi i gloddio'n ddyfnach i seice yr unigolyn a darparu dewisiadau amgen i'r swyddi ystrydebol y mae rhai cyfranogwyr yn meddwl y gallant ond ymgeisio amdanynt'.<br>• Mae gan y rhaglen 'straeon newyddion da' am gyfranogwyr benywaidd yn symud ymlaen i swyddi sy'n rhai gwrywaidd yn draddodiadol (e.e., gyrru cerbydau nwyddau trwm a gwaith | • Cadarnhaodd y cyfweliadau â chyfranogwyr fod cynghorwyr a mentoriaid yn trafod dyheadau'r cyfranogwyr, ond mae'n awgrymu bod cynghorwyr a mentoriaid yn tueddu i ganolbwyntio mwy ar geisio cyfateb dyheadau'r cyfranogwyr â'u galluoedd a chyfleoedd cyflogaeth lleol (sy'n cael ei ystyried yn arfer da) yn hytrach na mynd ati'n benodol i ystyried rolau nad ydynt yn rhai traddodiadol. Felly, mae'r ffocws yn fwy ar gyflogaeth ynddo'i hun, yn hytrach na chyflogaeth mewn rolau anhraddodiadol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | plymio) ac yn yr un modd am gyfranogwyr gwrywaidd sy'n symud ymlaen i swyddi sy'n rhai i fenywod yn draddodiadol, (nyrsio, gofal ac ati). | • Pan gawsant eu cyfweld, roedd y staff yn tueddu i ddisgrifio bod pawb yn cael ei drin yn gyfartal, ac felly roeddent yn cefnogi pobl sydd â'u bryd ar rolau anhraddodiadol, yn yr un modd ag yr oeddent yn cefnogi rhywun a oedd â'i fryd ar rolau traddodiadol, yn hytrach na mynd ati i herio gwahanu ar sail rhywedd (Llywodraeth Cymru, 2023a).<br>• Fodd bynnag, mae cyfweliadau a data arolygon yn cadarnhau bod cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd yn gyffredinol yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i oresgyn y rhwystrau i wireddu eu dyheadau (Llywodraeth Cymru, 2024a) |
| | Darpariaeth gofal plant | • Mae CaW yn defnyddio 'cyfrifiadau gwell eich byd' i helpu cyfranogwyr i ddeall y manteision ariannol posibl yn sgil symud ymlaen i gyflogaeth | • Mae tua thraean o gyfranogwyr CaW yn dweud bod gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu yn rhwystr iddynt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (mae'r rhain yn cynnwys costau gofal plant), gan helpu i roi cymhelliant i gyfranogwyr.<br>• Gellir defnyddio'r Gronfa Rwystrau i gael cymorth gyda gofal plant tra bo cyfranogwr yn dilyn hyfforddiant, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ar brofiad gwaith.<br>• Mae cynghorwyr neu fentoriaid yn rhoi cyngor ar gymorth ariannol fel credydau treth. | ac mae enghreifftiau o achosion lle y bu’r rhaglen yn helpu cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â gofal plant.[23] Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd y nifer a oedd yn manteisio ar gymorth gofal plant yn fach[24], ac yn is na'r gyfran sy'n nodi bod cyfrifoldebau gofalu yn rhwystr (er y byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, rhywfaint o ofalu am oedolion). (Llywodraeth Cymru 2024a).<br>• Gall gofal plant fod yn rhwystr allweddol, ond gall fod yn anodd ei oresgyn. Er i’r cyfranogwyr nodi eu |

[23] Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar y defnydd o'r Gronfa Rwystrau. Rhoddir enghreifftiau pellach yn yr Adroddiad ar Nodweddion a Phrofiadau'r Cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, 2024a)

[24] Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad ar Nodweddion a Phrofiadau'r Cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, 2024a) er bod cost gofal plant yn rhwystr cyn iddynt ymuno â’r rhaglen, dim ond 14% o gyfranogwyr CaW a 7% o gyfranogwyr CaW+ a holwyd a ddywedodd eu bod yn cael cymorth drwy drefnu gofal plant fforddiadwy, neu gael arian i dalu amdano. Er y gallai rhai fod wedi gallu talu am ofal plant heb gymorth y rhaglen drwy symud i mewn i gyflogaeth, dywedodd 16% o gyfranogwyr CaW a 5% o gyfranogwyr CaW+, adeg yr arolwg (h.y. ar ôl derbyn cymorth gan y rhaglen) bod y ffaith nad oeddent yn gallu fforddio gofal plant yn dal i fod yn rhwystr iddynt.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bod wedi cael cyfrifiadau gwell eu byd a chyngor ar gymorth ariannol, mae gofal plant yn aml yn ddrud (i unigolion a rhaglenni, gan gyfyngu ar y cyfle i ddefnyddio'r Gronfa Rhwystrau i fynd i'r afael â hyn) a gall fod yn anodd cael mynediad ato. At hynny, yn aml nid fforddiadwyedd a mynediad yw'r unig rwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu (ibid).<br>• Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru 2024a) roedd cyfran y menywod a gafodd swydd yn is na chyfran y dynion. Nid yw'n glir beth yw'r rheswm am hyn, ond gallai adlewyrchu'r gyfran lawer uwch o fenywod a ddywedodd fod gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu yn rhwystr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | iddynt, a'r anawsterau, a amlinellir uchod, o ran goresgyn hyn. |
| | Camau gweithredu cadarnhaol - pobl anabl | • Nod CaW yw ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl sy'n byw o fewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf sydd 'bellaf o'r farchnad lafur', gan gynnwys pobl anabl.<br>• Lle bo hynny ar gael / yn briodol, mae CaW yn cyd-drafod â sefydliadau arbenigol fel Mynediad i Waith er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau yn y gweithle. | • Rhoddwyd enghreifftiau o godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant, y dywedwyd eu bod wedi helpu i gynyddu hyder staff wrth gefnogi pobl anabl.[25]<br>• Mae cyfran y cyfranogwyr CaW anabl (7%) yn is na chyfradd Cymru (amcangyfrifir ei bod yn 22%).<br>• Fodd bynnag, adroddodd cyfranogwyr anabl a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth brofiadau cadarnhaol ac yn gyffredinol, aeth bron i draean o gyfranogwyr CaW anabl ymlaen i gyflogaeth (Llywodraeth Cymru 2024a). |

[25] Er enghraifft, fe wnaeth y rhaglenni gryn ymdrech i rannu arferion gorau o ran cefnogi unigolion anabl, gan gynnwys sefydlu rhwydwaith o arweinwyr anabledd ym mhob tîm cyflawni, a gweithio gydag Anabledd Cymru, i ddarparu hyfforddiant ar y Model Cymdeithasol o Anabledd i fentoriaid a chynghorwyr. Rhoddir rhagor o fanylion yn yr adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a) a'r Adroddiad ar Nodweddion a Phrofiadau'r Cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, 2024a).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • At hynny, pan ofynnwyd iddynt am y cymorth a gawsant gan CaW, roedd ymatebion y cyfranogwyr a nododd fod ganddynt salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd, yn gadarnhaol iawn ac yn debyg iawn i'r rhai na nododd fod ganddynt salwch hirdymor, problem iechyd neu anabledd. Fodd bynnag, yn gyffredinol fe wnaethant nodi llai o ddeilliannau cyflogadwyedd a phersonol cadarnhaol (Llywodraeth Cymru 2024a). |
| | Camau i gefnogi cyfranogwyr Du Asiaidd ac ethnig leiafrifol* | • Dywed nifer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a gefnogwyd gan CaW fod ganddynt gyfran uwch o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol na chyfradd Cymru.<br>• Gweithiodd CaW yn agos gyda chymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol i oresgyn | • Mae cyfran y cyfranogwyr CaW o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol (7%) yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru gyfan (5%) a chafodd hanner y rhain swyddi (cyfran uwch na chyfranogwyr gwyn Prydeinig/Cymreig/Saesnig). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhwystrau i gyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth.<br>• Roedd y rhaglen yn cynnig rhaglen gynhwysol i bawb, gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. | • Adroddodd cyfranogwyr du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaeth brofiadau cadarnhaol.[26] |
| | Cefnogaeth i'r Gymraeg | • Cydymffurfiodd staff CaW â'r Cynllun Iaith Gymraeg, Deddf yr Iaith Gymraeg, a chanllawiau'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau.<br>• Roedd mynediad i ddarpariaeth Gymraeg yn cael ei gynnwys yn y gofynion i ddarparwyr gwasanaethau. | • Dywedodd staff CaW ym mhob un o'r ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes eu bod yn cynnig dewis i gyfranogwyr ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Cadarnhawyd hyn gan gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr astudiaeth. Fodd bynnag, yn yr ardaloedd a gynhwyswyd yn y gwaith maes, roedd yn ymddangos mai Saesneg oedd yr iaith ddiofyn a gall hyn fod wedi atal pobl rhag mynegi eu bod yn ffafrio gwasanaeth Cymraeg (Llywodraeth Cymru, |

[26] Yn anffodus, roedd y sampl o gyfranogwyr CaW Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn rhy fach i ddod i gasgliadau cadarn am eu profiadau o'r rhaglen, o gymharu â chyfranogwyr gwyn Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddeleg o Ogledd Iwerddon neu Brydeinig CaW.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2023a). Nododd cyfweliadau â chyfranogwyr nad oedd rhai yn hyderus yn defnyddio'u Cymraeg wrth ddelio â gwasanaethau cyhoeddus gan fod ganddynt ddiffyg hyder yn eu gallu eu hunain, roeddent yn fwy cyfarwydd â defnyddio'r Saesneg, a/neu roeddent yn pryderu y byddai'r Gymraeg yn rhy 'ffurfiol' (Llywodraeth Cymru 2024a). Gallai hyn helpu i egluro pam bod nifer y cyfranogwyr a ddewisodd ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ymddangos yn is na'r disgwyl (Llywodraeth Cymru, 2023a). |
| Datblygu Cynaliadwy | - | • Hyrwyddwyd arfer da yn y meysydd datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth amgylcheddol wrth gyflwyno gweithgareddau a chafodd hynny ei integreiddio i raglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant. | • Prin oedd y dystiolaeth o ymwybyddiaeth neu weithgareddau i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (yn ychwanegol at bolisïau presennol sefydliadau) ymhlith staff yn y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Mae'n ofynnol i bartneriaid a darparwyr sicrhau bod polisïau datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol ar waith. | meysydd a gynhwyswyd yn y gwaith maes (Llywodraeth Cymru, 2023a). |
| Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol | Gweithgaredd mentora / eirioli Cynlluniau gwirfoddoli | • Canolbwyntiodd CaW ar y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru (cyn-ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf) a'i nod oedd cefnogi'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.<br>• Trefnodd CaW fynediad i leoliadau gwirfoddoli. | • Roedd Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol wrth wraidd y rhaglen. Fel yr amlinellir yn adran 1, roedd y rhaglen yn cynnig amrywiaeth o gymorth ac fel yr amlinellir yn adran 3, aeth nifer fawr o gyfranogwyr ymlaen i gael swyddi. Mae’r rhaglen felly’n debygol o fod wedi helpu i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol.<br>• Roedd nifer yr oedolion 25 oed a throsodd a fanteisiodd ar leoliadau gwirfoddoli yn llawer is na'r disgwyl. Er bod effaith y pandemig COVID-19 yn ffactor mae'r niferoedd wedi aros yn isel iawn ers i'r cyfyngiadau gael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | eu codi. Ymddengys fod hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o gyfranogwyr wedi mynd yn syth i waith, yn hytrach na chwblhau lleoliadau gwirfoddoli neu leoliadau gwaith yn gyntaf (Llywodraeth Cymru, 2023a). |
| Themâu Trawsbynciol Cyffredinol | Cyflwyno rhaglen hyfforddi staff ar themâu trawsbynciol (hyfforddiant ac e-ddysgu) | • Ni chyflwynwyd e-ddysgu, ond roedd tîm CaW yn pwysleisio ac yn trafod yn rheolaidd bwysigrwydd astudiaethau achos wrth amlygu themâu trawsbynciol mewn sefyllfaoedd go iawn a defnyddiwyd darparwr hyfforddiant allanol i gyflwyno sesiynau hyfforddi mewn cynadleddau ar y ffordd orau o ysgrifennu astudiaeth achos er mwyn gwneud y mwyaf o'r themâu trawsbynciol dan sylw. Dywedwyd bod WEFO wedi rhoi adborth cadarnhaol iawn ar yr astudiaethau achos.<br>• Ni phenodwyd oedd “hyrwyddwyr themâu trawsbynciol” fel y cyfryw, ond roedd gan bob un | • Soniodd staff am hyfforddiant mewn meysydd fel ymwybyddiaeth o anabledd, a rhannu arferion da, ond nid oedd hyrwyddo themâu trawsbynciol eraill fel herio gwahanu ar sail galwedigaeth, yn nodwedd amlwg mewn cyfweliadau â staff (nid yw hyn yn golygu na ddigwyddodd hynny, ond yn hytrach na chafodd ei grybwyll gan y staff a gyfwelwyd).<br>• Fel y nodir uchod, roedd gweithgaredd a oedd yn cefnogi pob un o'r themâu trawsbynciol ac yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Datblygu / defnyddio hyrwyddwyr themâu trawsbynciol | o reolwyr cyfrifon rhaglen CaW rôl bwysig o ran hyrwyddo’r themâu yn eu hardaloedd. | benodol, dealltwriaeth gref o rôl y rhaglen o ran mynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol a hefyd wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anabledd. |

* Heb ei restru fel dangosydd lefel achos

## 5. Gwerthusiad Economaidd (gwerth am arian)

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu:

- cyllidebau a gwariant y rhaglenni CaW a CaW+;
- y gost fesul cyfranogwr a ymgysylltodd â'r rhaglen;
- y gost fesul deilliant swydd ar gyfer pob rhaglen;
- y costau ar gyfer cysylltiadau a deilliannau swyddi ar gyfer rhaglenni cymorth cyflogaeth tebyg.

5.2 Rhoddir rhagor o fanylion am hanes a datblygiad y rhaglenni yn yr Adroddiad gwerthusiad proses a theori newid (Llywodraeth Cymru, 2023a) a cheir rhagor o fanylion am dargedau a pherfformiad y rhaglenni yn adran 3.

### Cyllidebau a gwariant y rhaglenni

*Cyfanswm gwariant y rhaglen CaW o gymharu â'r gyllideb*

5.3 Fel yr amlinellir yn Nhabl 5.1, cyfanswm y gyllideb ar gyfer y pedwar gweithrediad CaW dros y cyfnod 2015-2023 oedd £111.5 miliwn, ac roedd y gwariant hwn yn unol â'r gyllideb .[27]

**Tabl 5.1. Cyllid a gwariant CaW, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| | Cyfanswm cyllid ESF (£) | Cyfanswm Cyllid Llywodraeth Cymru (£) | Cyfanswm Cyllid DWP (£) | Cyfanswm Cyllideb y Gweithrediad (£) | Cyfanswm Gwariant y Gweithrediad (Gwirioneddol) (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 66,139,348 | 42,000,000 | 3,400,000 | **111,617,883** | **111,500,000** |


Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

5.4 Fel y dengys Ffigur 5.2 a Thabl 5.2, roedd gweithrediadau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llawer mwy na gweithrediadau Dwyrain Cymru ac yn cyfrif am bron i 80 y cant o gyfanswm y gwariant. Ym mhob rhanbarth roedd gweithrediadau Blaenoriaeth 1 yn fwy na gweithrediadau Blaenoriaeth 3. Roedd y gwariant ar draws

[27] Estynnwyd y rhaglen i ddechrau yn 2019, i 2022, gan gynyddu cyfanswm y gyllideb i £102,368,759 ac yna cafodd ei hymestyn eto tan 2023, gan gynyddu cyfanswm y gyllideb i £111,617,883.

y categorïau fel cyfran o gyfanswm y gwariant yn debyg ar draws pob categori, ac eithrio contract hyfforddi ACT, a oedd yn cyfrif am bump y cant o'r gwariant yn Nwyrain Cymru a naw y cant o'r gwariant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

**Siart 5.1 Gwariant fesul gweithrediad, Mai 2015-Rhagfyr 2022[28]**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

[28] Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm gwariant o £94,203,965.

**Tabl 5.2. Gwariant fesul gweithrediad, Mai 2015-Rhagfyr 2022**[29]

| | Staff cyflawni DWP a'r Corff Cyflawni Arweiniol | Costau wedi'u symleiddio (15% o gyflogau) | Staff Llywodraeth Cymru | Cytundeb hyfforddi ACT | Teithio a chynhaliaeth | Cyfanswm y Gronfa Rwystrau | Cyfanswm marchnata a hyrwyddo | Cyfanswm TGCh | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DC B3** | £4,486,000 | £705,000 | £229,000 | £320,000 | £41,000 | £25,000 | £23,000 | £18,000 | £0 |
| **DC B1** | £10,602,000 | £1,722,000 | £944,000 | £731,000 | £100,000 | £57,000 | £102,000 | £36,000 | £36,000 |
| **GCC B3** | £17,886,000 | £2,789,000 | £713,000 | £2,143,000 | £159,000 | £122,000 | £71,000 | £44,000 | £27,000 |
| **GCC B1** | £36,095,000 | £5,826,000 | £2,764,000 | £4,369,000 | £379,000 | £279,000 | £245,000 | £82,000 | £33,000 |


Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

[29] Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm gwariant o £94,203,965. Er mwyn gwneud y tabl yn haws ei ddarllen mae'r costau'n wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf.

*Cyfansoddiad gwariant CaW*

5.5 Fel y dengys Siart 5.2, yn gyffredinol, roedd costau staffio yn cyfrif am bron i 90 y cant o gyllideb CaW (os ystyrir costau staff cyflawni, staff Llywodraeth Cymru a chostau wedi'u symleiddio[30]). O gymharu, daeth y cymorth ariannol uniongyrchol a roddwyd i gyfranogwyr, megis y Gronfa Rwystrau[31] a chontract hyfforddi ACT [32], i naw y cant o gyfanswm y gwariant.

**Siart 5.2. Cyfanswm y gwariant, Mai 2015-Rhagfyr 2022[33]**




Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

---

[30] Mae costau wedi'u symleiddio yn gostau sy'n seiliedig ar ganran y cytunwyd arni – yn yr achos hwn 15 y cant o gostau staffio – yn hytrach na'r costau gwirioneddol. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, costau gweinyddol a rheoli.

[31] Pwrpas y Gronfa Rwystrau yw galluogi cyfranogwyr i oresgyn y rhwystr olaf i gyflogaeth megis talu costau teithio, gofal plant neu ddillad neu gyfarpar addas, lle nad oes modd i ffynonellau eraill dalu am hyn.

[32] Mae rhaglen CaW yn cynnwys model hyfforddi a gaffaelwyd, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ACT (enw masnachu Associated Community Training Limited) sy'n cynnig arlwy o opsiynau hyfforddi, y gellir (dim ond) cael mynediad iddi os nad oes dewis arall am ddim ar gael.

[33] Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar gyfanswm gwariant o £94,203,965. Er mwyn gwneud y graff yn haws ei ddarllen mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf.

5.6 Mae costau staff i bob pwrpas yn gost sefydlog ar gyfer y rhaglen (nad ydynt yn newid wrth i nifer y cyfranogwyr newid). Felly, fel yr amlinellir isod, fe wnaeth niferoedd is na’r disgwyl o gysylltiadau CaW gynyddu'r gost fesul cyfranogwr a gefnogwyd.

5.7 Er nad oes dadansoddiad cyfatebol ar gael ar gyfer CaW+ (gan fod arian yn cael ei ddyfarnu i gyrff cyflawni lleol, nad oedd yn ofynnol iddynt ddarparu dadansoddiad manwl o wariant tan 2022-23, er mwyn lleihau’r costau gweinyddol), mae’n debygol y bydd y proffil yn debyg. Fodd bynnag, mae costau staff yn debygol o fod ychydig yn is, o ystyried y strwythur rheoli llawer llai (Llywodraeth Cymru, 2023a).

**Cyfanswm gwariant y rhaglen CaW+**

5.8 Fel yr amlinellir yn Nhabl 5.3, cyfanswm y gyllideb ar gyfer CaW+ dros y cyfnod 2018-2023 oedd £74.5 miliwn. Cynyddwyd y cyllid blynyddol o 2020-21 ymlaen mewn ymateb i’r cynnydd disgwyliedig mewn diweithdra o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 ac ymatebion polisi megis ‘cyfnod clo’. Cafodd y cyllid ei gynyddu eto yn 2022-23 i gefnogi’r gwaith o gyflawni Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru.

**Tabl 5.3. Cyllid ar gyfer CaW+, Ebrill 2018 - Mawrth 2023**

| Blwyddyn | Cyllid ar gyfer CaW+ | Cynnydd (%) o gymharu â chyllid y rhaglen gychwynnol yn 2018/19 |
|---|---:|---:|
| 2018-19 | £11,587,805 | 0 |
| 2019-20 | £11,587,805 | 0 |
| 2020-21 | £14,330,693 | 24 |
| 2021-22 | £17,473,771 | 51 |
| 2022-23 | £19,726,011 | 69 |
| **Cyfanswm** | **£74,537,978** | **-** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli CaW Llywodraeth Cymru

**Cost fesul cyfranogwr a ymgysylltodd â'r rhaglenni**

5.9 Mae Tablau 5.4 a 5.5 yn amlinellu'r gost fesul cyfranogwr a ymgysylltodd â'r rhaglenni CaW a CaW+. Mae’n dangos bod y gost fesul cyfranogwr ar gyfer rhaglen

CaW+ (£1,758) bron 40 y cant yn is na’r gost fesul cyfranogwr ar gyfer CaW (£2,941). Mae hyn yn adlewyrchu costau is y rhaglen CaW+ a'i pherfformiad cryfach, o ran cysylltiadau. Mae hyn yn debygol o olygu bod y gymhareb staff (sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r costau) i gyfranogwyr yn llawer uwch na'r gymhareb ar gyfer CaW.

**Tabl 5.4. Cyllid ar gyfer Blaenoriaeth un a Blaenoriaeth tri CaW, Mai 2015 - Mawrth 2023**

| Gweithrediad | Cyllid ar gyfer CaW (£) | Nifer y cysylltiadau | Cost fesul cysylltiad (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **111,500,000** | **37,917** | **2,941** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth Reoli CaW Llywodraeth Cymru

**Tabl 5.5. Cyllid ar gyfer CaW+, Ebrill 2018-Mawrth 2023**

| Blwyddyn | Cyllid ar gyfer CaW+ (£) | Nifer y cysylltiadau | Cost fesul cysylltiad [34](£) |
|---|---|---|---|
| 2018-19 | 11,587,805 | 7,958 | 1,456 |
| 2019-20 | 11,587,805 | 7,753 | 1,495 |
| 2020-21 | 14,330,693 | 7,169 | 1,999 |
| 2021-22 | 17,473,771 | 8,346 | 2,094 |
| 2022-23 | 19,557,904 | 11,164 | 1,752 |
| **Cyfanswm** | **74,537,978** | **42,390** | **1,758** |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli CaW Llywodraeth Cymru

5.10 Fel yr amlinellir yn adran 5 oherwydd bod cyfanswm y cyfranogwyr yr ymgysylltodd y rhaglen CaW â nhw yn llai na’r disgwyl, roedd y gost ar gyfer pob cysylltiad yn

[34] Cysylltiad yw person sydd wedi ymuno â’r rhaglen ac sy’n bodloni’r meini prawf cymhwystra ar gyfer y rhaglen.

uwch na’r disgwyl yn wreiddiol (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, b)[35]. Mae hyn yn adlewyrchu nifer o ffactorau, yn fwyaf nodedig:

- diwygio rhaglen CaW yn 2019, a oedd yn lleihau’r targedau ar gyfer y cysylltiadau â chyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (pobl 25 oed a hŷn sy’n ddi-waith yn yr hirdymor neu’n economaidd anweithgar); na chafodd ei wrthbwyso gan y cynnydd yn y targedau ar gyfer y cysylltiadau â chyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant). Fel yr amlinellir yn adran 3 roedd y diwygio hwn yn adlewyrchu asesiad o'r hyn a oedd yn realistig, o ystyried perfformiad hanesyddol y rhaglen, a'r hyn a oedd yn dderbyniol o safbwynt cyffredinol y rhaglen;
- ymestyn rhaglen CaW tan fis Mawrth 2023, oherwydd bu i gostau cyffredinol y raglen gynyddu (40 y cant) a chwtogwyd y targedau cyffredinol ar gyfer cysylltiadau (26 y cant)[36], sydd eto'n adlewyrchu asesiad o'r hyn a oedd yn realistig a'r hyn a oedd yn dderbyniol;
- yr anawsterau a gafodd y rhaglen CaW i recriwtio cyfranogwyr economaidd anweithgar.


5.11 Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, oherwydd bod cyfanswm y cyfranogwyr yr ymgysylltodd y rhaglen CaW+ â nhw yn uwch na’r disgwyl (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a, b), roedd cost pob cysylltiad yn is na’r disgwyl yn wreiddiol. Serch hynny, fel y dengys Tabl 3.4, mae'r gost fesul cyfranogwr wedi cynyddu dros oes y rhaglen, oherwydd (fel CaW) roedd canran y cynnydd yng nghostau'r rhaglen o ganlyniad i ehangu'r rhaglen yn fwy na chanran y cynnydd mewn cysylltiadau.

5.12 Fel y dengys Siart 5.3, o gymharu â rhaglenni eraill DWP megis Ailgychwyn (£2,000) a'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd (£2,100) mae'r gost ar gyfer pob cysylltiad ar gyfer CaW yn sylweddol uwch. Er ei fod yn debyg i raglenni fel ReAct (£2,795).

[35] Cyfrifir y gost fesul deilliant drwy rannu cyfanswm y gost â nifer yr cysylltiadau. Felly, os yw nifer y cysylltiadau yn llai na'r disgwyl, mae'r gost fesul cysylltiad yn cynyddu. Er bod yr achosion busnes yn nodi cost a ragwelwyd fesul deilliant, nid oeddent yn cynnwys cost fesul cysylltiad.
[36] Er enghraifft, ar gyfer Blaenoriaeth 1 Dwyrain Cymru, cynyddwyd y gyllideb o £12.7 miliwn i £17.2 miliwn, ond gostyngodd y targedau ar gyfer nifer y cysylltiadau â phobl blaenoriaeth 1 o 10,259, i 5,775, gostyngiad o 44 y cant ac ar gyfer Blaenoriaeth 3 Dwyrain Cymru, cynyddodd y gyllideb o £4.8 miliwn i £6.9 miliwn, a chynyddwyd y targedau ar gyfer nifer y cysylltiadau â phobl blaenoriaeth 3 o 2,565 i 2,939, sef cynnydd o 15%.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae'r gost ar gyfer pob cysylltiad â CaW+ yn llawer is. Dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau uniongyrchol o ystyried y gwahaniaethau rhwng rhaglenni, er enghraifft, o ran y grwpiau yr oeddent yn eu targedu, cynllun y rhaglen, y cyd-destun yr oeddent yn gweithredu ynddo a graddfa'r ymyrraeth (Llywodraeth Cymru, 2023c).

**Siart 5.3 Cost fesul cysylltiad: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg**




Ffynonellau: Rhaglen Gwaith ac Iechyd ac Ailgychwyn (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020)[37]; PaCE (Llywodraeth Cymru, 2023b); ReAct (Llywodraeth Cymru, 2021); Twf Swyddi Cymru 2 (Llywodraeth Cymru, 2020a).

5.13 Nodwyd rhywfaint o wybodaeth hefyd am gostau prosiectau cyflogadwyedd ESF yng Ngogledd Iwerddon. Roedd hyn yn awgrymu bod costau prosiectau yn yr Alwad gyntaf yn gymharol debyg i'r prosiectau â chost is a ystyrir uchod (tua £1,750 ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi oedolion di-waith ac economaidd anweithgar a thua £2,500 ar gyfer prosiectau a oedd yn cefnogi pobl ifanc NEET). Fodd bynnag, roedd costau prosiectau o dan Alwad 2 yn sylweddol is (£716 ar gyfer prosiectau a oedd yn cefnogi oedolion di-waith ac economaidd anweithgar a £2,091 ar gyfer prosiectau a oedd yn cefnogi pobl ifanc sy'n NEET) (Adran Addysg, 2020).[38] Fodd

[37] Gweler Ffigur 11 (yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol) am fanylion cost ystod o raglenni DWP.
[38] Nid yw'n hysbys pam roedd y costau'n is, heblaw am gyfeiriad at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd prosiect galwad 2 (Adran yr Economi, 2020).

bynnag, mae'r diffyg manylion sydd ar gael am y prosiectau yn ei gwneud yn anodd barnu pa mor debyg ydynt.

**Y gost fesul deilliant swydd**

*Cymhariaeth o gost ddisgwyliedig a gwirioneddol CaW fesul deilliant swydd*

5.14 Roedd y gost a ragwelwyd fesul deilliant swydd (h.y. cyfranogwr sy'n 'symud ymlaen i gyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth ar ôl gadael') ar gyfer CaW yn adlewyrchu'r cymhlethdod disgwyliedig, ac felly'r amser y byddai'n ei gymryd i gynorthwyo cyfranogwyr i gael swydd (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad, a a b). Roedd y gwir gost fesul deilliant swydd, sef £6,585, yn debyg iawn i'r hyn a ragwelwyd (£6,476). Roedd ffactorau megis perfformiad cryf a chyfradd uchel o gysylltiadau a arweiniodd at gleientiaid yn cael swyddi (a drafodir yn adran 3) wedi helpu i wrthbwyso effaith y nifer lai na'r disgwyl o gysylltiadau a'r costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag ymestyn y rhaglen.

5.15 Fel y dengys Tabl 5.6 a Siart 5.4, mae cost CaW+ ar gyfer pob deilliant swydd yn sylweddol is na rhaglenni tebyg. Mae hefyd yn dangos, er ei fod yn sylweddol uwch na CaW+, bod cost CaW ar gyfer pob cleient a gafodd swydd yn debyg i nifer o raglenni fel Cronfa Swyddi'r Dyfodol (£6,500 fesul deilliant swydd). Fel y nodir uchod, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau uniongyrchol o ystyried y gwahaniaethau rhwng y rhaglenni.

**Tabl 5.6. Y gost fesul swydd: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg (mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr)**


| Prosiect / rhaglen | Y gost fesul deilliant cyflogaeth (£) |
|---|---|
| Cymunedau am Waith+ | 4,100 |
| Cronfa Swyddi'r Dyfodol | 6,500 |
| Cymunedau am Waith | 6,600 |
| Cronfa Cynhwysiant Gweithredol (CCG) | 6,900 |
| Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 16-24 oed[39] | |
| ReAct 1 | 7,200 |
| Twf Swyddi Cymru 2 | 7,700 |
| Cyflogaeth, Rhieni a Gofal Plant (PaCE)[40] | 8,500 |
| OPUS | 39,000 |

Ffynonellau: CGC (CGCC, 2022); Twf Swyddi Cymru 2 (Llywodraeth Cymru, 2020a); PaCE (Llywodraeth Cymru, 2023b); OPUS (ERS, 2020); Cronfa Swyddi'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad. a); Esgyn (Llywodraeth Cymru, 2018a; ReAct (Llywodraeth Cymru, 2011).

[39] Noder, ni chyhoeddwyd data ar gyfer y rhai dros 25 oed. Roedd gwahaniaeth amlwg hefyd rhwng y costau ar gyfer Dwyrain Cymru (£5,784) ac ar gyfer gweithrediadau Gorllewin Cymru a’r Cymoedd (£7,123)

[40] Rhagwelwyd y byddai hon yn rhaglen ddrutach oherwydd cynhwyswyd cyllid ar gyfer costau gofal plant.

**Siart 5.4 Cost fesul cleient a gafodd swydd: CaW, CaW+ a rhaglenni tebyg, heb gynnwys OPUS[41] (ffigurau wedi'u talgrynnu i fyny neu i lawr)**




Ffynonellau: CGC (CGCC, 2022); Twf Swyddi Cymru 2 (Llywodraeth Cymru, 2020c); PaCE (Llywodraeth Cymru, 2023b); OPUS (ERS, 2020); Cronfa Swyddi'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru, dim dyddiad. a); ReAct (Llywodraeth Cymru, 2011)

**Cost fesul cleient 'ychwanegol' a gafodd swydd**

5.16 Mae'n bwysig cofio y gall graddau'r ychwanegedd[42] sy'n gysylltiedig â rhaglenni cymorth cyflogaeth fod yn fach, gan y byddai llawer o'r rhai a gefnogwyd gan raglen yn debygol o fod wedi symud ymlaen i gyflogaeth heb y cymorth. Trafodir hyn yn yr Adroddiad Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith (Llywodraeth Cymru, 2024b). Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod:

- ymysg y di-waith, amcangyfrifir bod cymryd rhan yn CaW yn gysylltiedig â gwelliant mewn deilliannau cyflogaeth o bedwar pwynt canran, gyda 46 y cant

[41] Ni chynhwyswyd OPUS gan y byddai'r costau llawer uwch wedi ystumio'r siart bar gan ei fod yn gymaint o allanolyn o ran cost fesul cleient a gafodd swydd.
[42] Mae ychwanegedd yn disgrifio i ba raddau y mae rhywbeth yn digwydd (cyflogaeth yn yr achos hwn) o ganlyniad i ymyriad, fel y rhaglen, na fyddai wedi digwydd yn absenoldeb yr ymyriad.

o gyfranogwyr CaW mewn gwaith ar ôl 12 mis o gymharu â 42 y cant ymhlith sampl cyfatebol;

- ymysg y rhai economaidd anweithgar, amcangyfrifir bod cymryd rhan yn CaW yn gysylltiedig â gwelliant mewn deilliannau cyflogaeth o 16 pwynt canran, gyda 31 y cant o gyfranogwyr CaW mewn gwaith ar ôl 12 mis o gymharu â 42 y cant ymhlith sampl cyfatebol (Llywodraeth Cymru, 2024b);

5.17 Fel yr amlinellir yn adran 3, dros oes y rhaglen, rhoddodd CaW gymorth i 16,933 o gyfranogwyr gael gwaith. Os tybiwn fod y gyfradd cyflogaeth yn cynyddu 24 y cant o ganlyniad i gymryd rhan yn CaW, o blith y rhain, mae 13,656 yn debygol o fod wedi symud ymlaen i waith yn absenoldeb y rhaglen, ac mae 3,227 yn annhebygol o fod wedi symud ymlaen i waith yn absenoldeb y rhaglen.

5.18 Fel yr amlinellir yn adran 3, dros oes y rhaglen, rhoddodd CaW+ gymorth i 18,146 o gyfranogwyr gael gwaith. Os tybiwn fod y gyfradd cyflogaeth yn cynyddu 36 y cant o ganlyniad i gymryd rhan yn CaW, o blith y rhain, mae 13,343 yn debygol o fod wedi symud ymlaen i waith yn absenoldeb y rhaglen, ac mae 4,803 yn annhebygol o fod wedi symud ymlaen i waith yn absenoldeb y rhaglen.

5.19 Mae Tabl 5.7 yn amlinellu’r gost amcangyfrifedig ar gyfer pob deilliant ychwanegol ar gyfer CaW a CaW+ yn seiliedig ar yr amcangyfrifon o ychwanegedd sy’n deillio o’r Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith. Mae'n cymharu'r rhain â'r gost fesul swydd ychwanegol ar gyfer y rhaglen PaCE, sy'n wahanol i'r rhaglenni eraill a ystyriwyd, â gwerthusiad effaith tebyg i CaW a CaW+. Er bod PaCE, fel yr amlinellir uchod, yn rhaglen ddrutach, cafodd hyn ei wrthbwyso gan yr ychwanegedd ehangach sy'n gysylltiedig â PaCE o'i gymharu â CaW neu CaW+.[43]

[43] Mae’r gwerthusiad yn amcangyfrif bod cymryd rhan yn PaCE wedi arwain at gynnydd o 26 pwynt canran yng nghyfran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a chynnydd o 30 pwynt canran yng nghyfran y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 sy’n symud ymlaen i waith nag y byddent wedi’i wneud fel arall (tud 60, Llywodraeth Cymru, 2023c).

**Tabl 5.7. Amcangyfrif o'r gost fesul swydd 'ychwanegol': CaW a CaW+**

| Rhaglen | Y gost fesul deilliant cyflogaeth ychwanegol (£) |
|---|---|
| Blaenoriaeth 3 PaCE (pobl ifanc) | 8,366 |
| Blaenoriaeth 1 PaCE (oedolion 25+) | 11,706 |
| CaW+ | 15,519 |
| CaW | 34,552 |

Ffynonellau: Gwybodaeth reoli CaW a CaW+ Llywodraeth Cymru; PaCE (Llywodraeth Cymru, 2023b).

**Manteision ehangach cyflogaeth**

5.20 Mae astudiaethau'n dangos bod amrywiaeth o fanteision i unigolion, yr economi a chymdeithas o ddychwelyd i'r gwaith (PHE, 2017; Schneider et al 2010; Waddel a Burton, 2006). Mae goblygiadau ariannol i'r manteision hyn. Er enghraifft, cyfrifodd astudiaeth Public Health England (PHE) (PHE, 2017) y manteision o ran iechyd meddwl ac, o ganlyniad i hynny, y manteision ariannol, yn sgil dychwelyd i'r gwaith i'r unigolyn (h.y., cyfranogwr y rhaglen cymorth cyflogaeth), i gymdeithas[44] ac i'r trysorlys[45]. Nid yw'r manylion am gostau cymorth cyflogaeth a'r math o gymorth cyflogaeth a adolygwyd yn yr adroddiad (Ibid.) wedi'u cyhoeddi ac felly ni ellir eu defnyddio i gymharu'n uniongyrchol â CaW neu CaW+. Er gwaethaf hynny, gan gyfeirio at ganfyddiadau'r adroddiad (Ibid.), Mae Tabl 5.8 yn awgrymu bod manteision ariannol CaW a CaW+ i unigolion, cymdeithas a'r trysorlys yn debygol o fod yn sylweddol.

[44] E.e., cynnydd mewn treth incwm, cynnydd mewn cyflogau, gostyngiad mewn taliadau budd-dal tai etc. (tud.39, Ibid.)

[45] Manteision i'r llywodraeth genedlaethol, manteision i'r awdurdod lleol (ac eithrio arbedion costau iechyd a gofal cymdeithasol) a manteision i'r gwasanaethau iechyd a gofal. (tud.39, Ibid.).

**Tabl 5.8. Amcangyfrif o fanteisION ariannol net manteision iechyd meddwl i'r unigolyn, i gymdeithas ac i'r trysorlys ar gyfer CaW a CaW+ (yn seiliedig ar wariant a deilliannau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2015 i Fawrth 2023)**

| Rhaglen | Annhebygol o fod wedi symud ymlaen i waith yn absenoldeb y rhaglen (Nifer) | Manteision ariannol fesul person sy'n dychwelyd i'r gwaith | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Unigolyn (£3,500 y pen) | Cymdeithas (£23,100 y pen) | Y Trysorlys (£12,000 y pen) |
| CaW | 3,227 | £11,294,500 | £74,543,700 | £38,724,000 |
| CaW+ | 4,803 | £16,810,500 | £110,949,300 | £57,636,000 |

Ffynhonnell: (PHE, 2017); Gwybodaeth reoli CaW a CaW+ Llywodraeth Cymru

# 6. Casgliadau

### Perfformiad y rhaglen CaW

6.1 Ymgysylltodd CaW â thua 38,000 o bobl dros gyfnod o bron i wyth mlynedd.[46] Er gwaethaf yr heriau a grëwyd gan y pandemig, a effeithiodd ar yr ymgysylltiad â'r rhaglenni a'r broses o'u cyflawni (gweler Llywodraeth Cymru, 2023a am fanylion), mae perfformiad dros oes y rhaglen yn erbyn y targedau ymgysylltu ar gyfer B3 wedi bod yn gryfach na'r disgwyl (106 y cant o'r targed ym mis Mawrth 2023) o'i gymharu â'r perfformiad braidd yn amrywiol ar draws B1 lle roedd y cysylltiadau â chyfranogwyr economaidd anweithgar yn 91 y cant a'r cysylltiadau â chyfranogwyr a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor yn 102 y cant o'r targed ym mis Mawrth 2023.

6.2 Rhoddodd CaW gymorth i dros ddwy ran o bump o'r rhai a ymgysylltodd â'r rhaglen i gael gwaith, sef 16,933 o bobl. Mae'r perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer y cleientiaid B1 a fu'n ddi-waith yn yr hirdymor a chyfranogwyr B3 a gafodd swyddi wedi bod yn gryf iawn, sef 111 y cant o'r targed ym mis Mawrth 2023. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd perfformiad y rhaglen yn erbyn y targedau swyddi ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar B1 er yn eithaf da, yn wannach, sef 90 y cant o'r targed cyffredinol ym mis Mawrth 2023.

6.3 Nid yw'n glir o'r data a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn pam yr oedd nifer y cysylltiadau â phobl economaidd anweithgar yn llawer is na'r disgwyl. Mae llawer mwy o bobl economaidd anweithgar yng Nghymru (364,000 16-64 oed), na phobl ddi-waith (76,000 16+ oed) (Ymchwil y Senedd, 2023b). Yn yr un modd, oherwydd nad yw pobl sy'n economaidd anweithgar, yn eu hanfod, wrthi'n chwilio am waith, mae'n debygol o fod yn anoddach i raglen cymorth cyflogaeth ymgysylltu â nhw, o gymharu â phobl sy'n ddi-waith (ac yn eu hanfod, sy'n chwilio am waith).[47] Fodd

[46] Lansiwyd CaW ym mis Mai 2015 ac erbyn mis Mawrth 2023 roedd cyfanswm y cyfranogwyr B1 a B3 yn 37,917.

[47] Nid yw pobl economaidd anweithgar yn gymwys i gael cymorth diweithdra fel Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) neu Gredyd Cynhwysol, ond gallent fod yn gymwys i gael mathau eraill o fudd-daliadau, megis Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA). Bydd rhai o'r bobl sy'n hawlio ESA yn y 'grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith', oherwydd yn dilyn asesiad gallu cysylltiedig â gwaith, barnwyd er na allant weithio nawr, y gallant baratoi i weithio yn y dyfodol. Gallai pobl yn y grŵp hwn, sydd ond yn cyfrif am tua 7% o'r rhai sy'n hawlio ESA (DWP, 2023), gael eu cyfeirio at CaW a CaW+. Felly, mae'r nifer sy'n debygol o gael eu cyfeirio gan y Ganolfan Byd Gwaith yn debygol o fod yn fach, ac mae'n bosibl bod y ddibyniaeth ar y Ganolfan Byd Gwaith fel ffynhonnell atgyfeirio allweddol wedi cyfrannu at y niferoedd is na'r disgwyl.

bynnag, dim ond damcaniaethu yw hynny, ac fel yr amlinellir yn yr adroddiad ar Nodweddion a Phrofiadau'r Cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru, 2024a) oherwydd nad oedd y gwerthusiad yn cynnwys ymchwil gyda phobl nad oedd y rhaglen wedi ymgysylltu â nhw, mae llawer llai yn hysbys ynghylch pam y gwnaethant ddewis peidio ag ymgysylltu.

6.4 Casglwyd data gan y rhai a ddewisodd ymgysylltu â'r rhaglen ac felly mae mwy yn hysbys am eu dewisiadau. Efallai ei bod yn arwyddocaol bod nifer o bobl a fu'n segur yn economaidd ac a gymerodd ran yn y rhaglen (ac a gafodd eu cyfweld) wedi profi digwyddiadau bywyd arwyddocaol a fu o gymorth i'w sbarduno i ymgysylltu â'r rhaglen neu a arweiniodd at hynny. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, profedigaethau a phrofiadau o'r pandemig, a wnaeth i bobl ailasesu'r hyn yr oeddent am ei wneud mewn bywyd, a/neu leihad mewn cyfrifoldebau gofalu (e.e., wrth i blant ddechrau'r ysgol), a gynyddodd eu cyfleoedd. Ond yn bwysig ddigon, roedd y rhain yn ddigwyddiadau nad oedd gan y rhaglen unrhyw reolaeth na dylanwad drostynt, ond yn rhai y gallai'r rhaglen helpu'r bobl a'u profodd i weithredu arnynt.

**Perfformiad y rhaglen CaW+**

6.5 Ymgysylltodd CaW+ â thros 42,000 o bobl dros gyfnod o bum mlynedd[48], a rhagorodd gryn dipyn ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, er gwaethaf effaith y pandemig. Fel CaW, mae wedi cynorthwyo dros ddwy ran o bump o'r rhain, dros 18,000 o bobl, i gael gwaith.

**Perfformiad y rhaglen o gymharu â'r disgwyliadau cychwynnol**

6.6 Wrth ystyried perfformiad y rhaglenni, sydd, fel yr amlinellir uchod, wedi bod yn gryf, mae'n bwysig nodi bod y disgwyliadau cychwynnol ar gyfer pob rhaglen ychydig yn wahanol i'r hyn a ddigwyddodd yn ymarferol. Yn benodol, roedd nifer y cyfranogwyr B1, ac yn enwedig y cyfranogwyr economaidd anweithgar yr ymgysylltodd CaW â nhw, yn llai na'r disgwyl, a chafodd targedau'r rhaglen eu diwygio (gan olygu ei bod wedi cefnogi llai o bobl na'r disgwyl). Fodd bynnag, roedd y rhaglen yn llawer mwy effeithiol na'r disgwyl o ran sicrhau bod y rhai yr ymgysylltwyd â nhw yn cael swyddi,

[48] Dechreuodd y cyllid ar gyfer CaW+ ym mis Ebrill 2018, ond roedd yr amser a gymerodd ALlau i recriwtio staff yn golygu nad oedd CaW+ yn gwbl weithredol tan fis Tachwedd 2018.

felly roedd y deilliannau o ran swyddi yn llawer cryfach na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, roedd disgwyl i CaW+ fod yn rhaglen gweddol fach gyda'r bwriad o (i) cefnogi CaW drwy helpu i lenwi'r blychau yn y seilwaith a grewyd wedi i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ddod i ben a (ii) ymestyn cymorth cyflogaeth i'r rhai nad oeddent yn gymwys ar gyfer CaW. Fodd bynnag, o ran maint, mae CaW+ yn fwy na CaW bellach, ac mae timau CaW+ wedi rhagori ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â nifer y cleientiaid a gafodd swyddi, a hefyd o ran nifer y cysylltiadau.

**Cyfraniad at amcanion cydraddoldeb a nodau llesiant Llywodraeth Cymru**

6.7 Mae perfformiad cryf y rhaglenni o ran ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl a'u cynorthwyo (er enghraifft, o ran oedran, rhyw, ethnigrwydd, iechyd ac anabledd) i gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, yn golygu bod y ddwy raglen wedi gwneud cyfraniadau pwysig at drechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal. Fodd bynnag, er bod niferoedd mawr o bobl wedi cael eu cefnogi, roedd y cyfrannau o bobl o rai grwpiau, yn fwyaf nodedig pobl anabl, a gafodd swydd, yn llawer is na'r disgwyl, gan gyfyngu ar effaith y rhaglenni. Roedd cyfran y menywod a symudodd ymlaen i waith hefyd yn is na chyfran y dynion yr ymgysylltodd y rhaglen CaW â nhw a symudodd ymlaen i waith.

*Camau ychwanegol i fynd i'r afael â'r Themâu Trawsbynciol*

6.8 Roedd trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal yn ganolog i gynllun a diben CaW. Roedd y dystiolaeth gryfaf o weithgaredd ychwanegol mewn perthynas â'r themâu trawsbynciol yn ymwneud â chyfle cyfartal ac fe wnaeth CaW ymgysylltu ag amrywiol gyfranogwyr a'u cefnogi. Mae CaW wedi ymgysylltu a chefnogi ystod amrywiol o gyfranogwyr. Mae'r perfformiad o ran ymgysylltu â chyfranogwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol a'u cynorthwyo i gael gwaith wedi bod yn arbennig o gryf. Mae nifer o resymau posibl am hyn; maent yn cynnwys:

- y modd y cafodd y rhaglen ei thargedu a'r ardaloedd daearyddol yr oedd CaW yn gweithredu ynddynt, a oedd yn cynnwys poblogaethau mawr o bobl Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol;

- y cymhelliant cryf i ddod o hyd i waith ymhlith rhai grwpiau o grwpiau o bobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, yn fwyaf nodedig, ymfudwyr economaidd a rhai ffoaduriaid[49]; a
- gweithgaredd ychwanegol a wnaed gan y rhaglenni i ymgysylltu â phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.

6.9 Yn anffodus, nid yw'r data a gasglwyd yn ei gwneud hi'n bosibl barnu faint y gellir ei briodoli i'r ffactorau hyn neu ffactorau eraill.

6.10 Roedd y rhaglen hefyd yn cefnogi nifer fawr o bobl anabl, ac roedd tystiolaeth o weithgaredd ychwanegol i gefnogi hyn, er bod cyfran y cyfranogwyr anabl ar y rhaglen yn parhau'n sylweddol is na chyfran y bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar yng Nghymru sy'n anabl.

6.11 Prin oedd y dystiolaeth o weithgaredd i herio gwahanu ar sail galwedigaeth.[50] Serch hynny, fe wnaeth y ddwy raglen gefnogi nifer fawr o ddynion a menywod, ac roedd llawer ohonynt yn teimlo bod y rhaglen wedi eu helpu i gyflawni eu dyheadau. Roedd gan y rhaglenni hefyd gynnig dwyieithog, er i lai o gyfranogwyr na'r disgwyl ddewis defnyddio'r Gymraeg.

6.12 Roedd tystiolaeth hefyd o weithgaredd ychwanegol gan CaW i gefnogi trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy gynorthwyo pobl i wirfoddoli er bod nifer y cyfranogwyr a fanteisiodd ar leoliadau gwirfoddoli yn llai na'r disgwyl. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, cymharol ychydig o dystiolaeth a welwyd o weithgaredd ychwanegol, y tu hwnt i bolisïau sefydliadau sy'n darparu CaW, i gefnogi datblygu cynaliadwy.

**Gwerth am arian**

6.13 Caiff gwerth am arian y rhaglen ei asesu yn erbyn y pedwar maen prawf a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i asesu gwariant y llywodraeth: darbodusrwydd (gwario llai); effeithlonrwydd (gwario'n dda); effeithiolrwydd (gwario'n ddoeth) a thegwch (gwario'n deg). Rydym yn ystyried pob un o'r rhain yn eu tro.

[49] Gweler ee. JRF, 2013 a Llywodraeth Cymru, 2020b am drafodaeth bellach ar y materion hyn.
[50] Mae gwahanu ar sail galwedigaeth yn disgrifio sut y mae dynion a menywod yn dewis rolau neu dasgau galwedigaethol gwahanol, neu'n cael eu sianelu i'r rolau hynny, sy'n golygu bod nifer anghymesur o ddynion neu fenywod yn cyflawni rolau penodol neu'n ymgymryd â thasgau penodol.

*Darbodusrwydd ac effeithlonrwydd*

6.14 Roedd gwariant CaW yn unol â'r gyllideb ac roedd y gost fesul deilliant swydd yn debyg iawn i'r hyn a ragwelwyd. Mae CaW hefyd yn debyg i raglenni cymorth cyflogaeth eraill wrth ystyried y deilliannau a gyflawnwyd yn erbyn y gwariant. Fodd bynnag, roedd y gost ar gyfer pob cysylltiad yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, gan fod nifer y cysylltiadau'n llai na'r disgwyl. Roedd hyn yn rhannol oherwydd effaith y pandemig COVID-19 sy'n golygu y dylid bod yn ofalus wrth gymharu'n uniongyrchol â chostau rhaglenni eraill a oedd yn weithredol cyn y pandemig.

6.15 O gymharu, mae CaW+ gryn dipyn yn rhatach na CaW, ac roedd y gost a ragwelwyd fesul ymgysylltiad a'r gost fesul cleient a gafodd swydd, yn is na'r disgwyl ac yn is na llawer o raglenni tebyg. Felly, roedd yn ddarbodus yn ogystal ag effeithlon.

6.16 Y prif wahaniaethau o ran cost y rhaglenni oedd y strwythur rheoli llai ar gyfer CaW+ a'r dull o gaffael hyfforddiant a oedd, ym marn staff y rhaglen, yn fwy darbodus[51]. Roedd CaW+ hefyd yn gallu 'neidio ar gwt' y model a'r strwythurau a ddatblygwyd gan CaW (Llywodraeth Cymru, 2023a).

6.17 Gan fod y rhan fwyaf o gostau'r rhaglenni (ar gyfer CaW a CaW+) yn sefydlog (ac nid ydynt yn newid wrth i nifer y cyfranogwyr a gefnogir newid) roedd yr effeithlonrwydd yn dibynnu'n fawr ar nifer y cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â nhw ac a gafodd gymorth i gael gwaith. Roedd gweithio gyda niferoedd mwy o gyfranogwyr, a chanddynt lai o rwystrau, fel y gwnaeth CaW+, yn fodel mwy effeithlon.

*Effeithiolrwydd*

6.18 Roedd y ddwy raglen yn effeithiol ac wedi cyflawni deilliannau cryf er gwaethaf yr heriau a gododd yn sgil y pandemig COVID-19 (a drafodir yn y gwerthusiad proses Llywodraeth Cymru, 2023a). Er bod CaW wedi cynorthwyo llai o bobl nag a ragwelwyd, bu'n fwy llwyddiannus na'r disgwyl o ran troi cysylltiadau yn ddeiliannau swyddi, a rhagorodd CaW+ ar ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau a deilliannau swyddi. At hynny:

[51] Comisiynir hyfforddiant CaW+ yn lleol tra bod CaW yn mabwysiadu model hyfforddiant a brynir yn ganolog;

- mae'r gwerthusiad gwrthffeithiol o effaith (Llywodraeth Cymru, 2024b) yn darparu tystiolaeth o effaith y rhaglenni, mewn perthynas ag ychwanegedd;
- mae'r adroddiad ar nodweddion a phrofiadau'r cyfranogwyr yn amlinellu effaith drawsnewidiol y rhaglenni ar brofiadau a bywydau rhai cyfranogwyr (Llywodraeth Cymru 2024a);
- mae ymchwil yn dangos y gwerth ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â symud mlaen i gyflogaeth i unigolion, yr economi a chymdeithas.

*Tegwch*

6.19 Cynigiwyd a chyflwynwyd y ddwy raglen i gyfranogwyr mewn modd teg a chyfartal, yn yr ystyr eu bod wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion cyfranogwyr unigol a'u teilwra yn unol â lefel y gwasanaeth yr oedd ei angen ar y cyfranogwyr. Perfformiodd y ddwy raglen yn gryf o ran cefnogi cyfranogwyr o gefndiroedd demograffig amrywiol gan awgrymu bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol.

6.20 Mae ystyriaethau tegwch hefyd yn dangos ei bod braidd yn annheg cymharu gwerth am arian y ddwy raglen (a rhaglenni eraill) yn uniongyrchol. Yn benodol, roedd y rhaglen CaW wedi'i thargedu'n fwy at gyfranogwyr â mwy o rwystrau i gyflogaeth a oedd yn debygol o fod yn anoddach ymgysylltu â nhw ac yn debygol o fod yn ddrutach i'w cynorthwyo i gael gwaith, o gymharu â chyfranogwyr CaW+. Yn yr ystyr hwn, roedd angen mwy o adnoddau (a chyllid) ar CaW i gyflawni'r un lefel o ddeilliannau â CaW+.

*Gwerth am arian y rhaglenni*

6.21 Wrth asesu gwerth am arian y rhaglenni, mae’n werth nodi y dyrannwyd nifer dda o adnoddau i'r fethodoleg a fabwysiadwyd i werthuso CaW a CaW+ a bod y broses wedi bod yn drylwyr, ac nid yw hyn bob amser yn wir am werthusiadau o raglenni cymorth cyflogadwyedd tebyg nad ydynt, er enghraifft, wedi mabwysiadu unrhyw ddadansoddiad gwrthffeithiol i asesu maint yr ychwanegedd ac effaith y rhaglen. O'r herwydd, mae'n debygol y bydd y lefel uwch o dryloywder a chraffu a ddefnyddiwyd yng ngwerthusiad CaW a CaW+ wedi cynhyrchu asesiad llai ffafriol o werth am arian y rhaglenni o gymharu â'r rhai nad ydynt wedi'u gwerthuso mor llym.

6.22 Er bod CaW yn rhaglen ddrud, gan fod gweithrediadau Blaenoriaeth 1 yn canolbwyntio ar bobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn yr hirdymor a'r rhai sy'n economaidd anweithgar, sy’n debygol o fod yn fwy costus i ymgysylltu â nhw a’u cefnogi, mae’n cynnig gwerth rhesymol am arian, yn enwedig o ran deilliannau swyddi.

6.23 Mae CaW+ yn llawer rhatach na rhaglenni cymorth cyflogaeth eraill (gan gynnwys CaW) ac yn cynnig gwerth da iawn am arian, o gymharu cost y deilliannau a gyflawnwyd â rhaglenni tebyg eraill. Fodd bynnag, fel y nodwyd, roedd y rhaglen hefyd yn canolbwyntio llai ar y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, ac mae'n debyg bod hyn yn helpu i egluro costau is CaW+ o gymharu â CaW.

6.24 Wrth asesu gwerth am arian, mae hefyd yn bwysig ystyried yr arbedion cost ehangach a gyflawnwyd ar gyfer unigolion, cymdeithas, a’r trysorlys pan fydd person a fyddai wedi bod yn annhebygol o gael swydd yn absenoldeb yr ymyriad yn dychwelyd i’r gwaith, a ni chaiff yr arbedion ariannol hyn eu hystyried wrth edrych ar gost syml fesul cyswllt neu ddeilliant swydd ar gyfer pob rhaglen. Pe na bai’r unigolion hyn wedi cael gwaith drwy’r rhaglen, byddai hyn wedi rhoi baich ariannol ychwanegol sylweddol ar gymdeithas a’r pwrs cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

*Meysydd posibl i'w dadansoddi yn y dyfodol*

6.25 Gallai dadansoddiad yn y dyfodol ystyried y llwythi achosion delfrydol ar gyfer staff sy’n cydbwyso nifer y bobl a gefnogir (gan y bydd cefnogi mwy o bobl yn lleihau’r gost fesul cyfranogwr a gefnogir) a’r amser sydd ei angen i gefnogi pob cyfranogwr mewn ffyrdd hyblyg sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn (sy’n cael ei ystyried yn bwysig wrth gefnogi pobl i gael gwaith). Gallai hyn hefyd ystyried sut y gall y llwythi achosion delfrydol amrywio yn dibynnu ar anghenion cymorth gwahanol grwpiau o gyfranogwyr (gan y gallai rhai cyfranogwyr fod angen mwy o gymorth neu elwa o gael mwy o gymorth).

6.26 Gallai dadansoddiad yn y dyfodol hefyd ystyried a allai gwariant ychwanegol ar gostau nad ydynt yn ymwneud â staff, megis y Gronfa Rwystrau neu farchnata, sydd ar hyn o bryd ond yn cyfrif am gyfran fach iawn o gyfanswm y gwariant,

gynyddu nifer y bobl sy'n ymgysylltu ac yn cael cymorth i symud ymlaen i waith.[52] Byddai gwariant ychwanegol yn amlwg yn cynyddu costau, a gwariant ar feysydd fel marchnata yn debygol o fod yn gost sefydlog, o leiaf nes i'r targedau gael eu cyrraedd[53], felly byddai angen pwyso a mesur y costau uwch yn erbyn y potensial i gynyddu'r cysylltiadau a'r deilliannau.

[52] Roedd rhwystredigaeth ynglŷn â'r fiwrocratiaeth a oedd yn gysylltiedig â chael mynediad i Gronfa Rwystrau CaW, gan y teimlwyd bod hynny wedi cyfyngu ar ei defnydd, ond cafwyd llai o drafodaeth ynghylch a oedd cyllidebau marchnata yn rhy fach neu'n rhy gyfyngol. Nid yw hyn yn golygu nad oedd hynny'n wir. Yn hytrach mae'n golygu na ddaeth i'r amlwg fel prif themâu mewn cyfweliadau (Llywodraeth Cymru, 2023a).

[53] Er enghraifft, pe bai targedau ymgysylltu yn cael eu cyrraedd, gellid atal gweithgaredd marchnata pellach.

## Adran gyfeiriadau

Adran yr Economi (2020) An Impact Evaluation of the Northern Ireland European Social Fund Programme, 2014-20. Gwefan Adran yr Economi

CGCC (2022) Gwerthusiad Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, Adroddiad Terfynol Crynodeb Gweithredol. Gwefan CGCC

ERS Research and Consultancy (2020) Evaluation of Opus, Final Report. Heb ei gyhoeddi

Llywodraeth Cymru (2011) *Gwerthusiad o Raglen Gweithredu Diswyddiadau (ReAct)*: *Adroddiad Interim*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2018) *Gwerthusiad o Raglen Esgyn (Cam 3 a gwerthusiad terfynol),* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2020a) *Nodau, Amcanion a Chamau Gweithredu Cydraddoldeb y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2020b) *Astudiaeth o Gymorth Cyflogaeth a Sgiliau i Ffoaduriaid*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2020c) *Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru 2015 i 2019*, Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2021) *Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021*) Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2022) *Diweddariad gan y Prif Ystadegwyr: data ar y Gymraeg* Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023a) Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Cam 1 (gwerthusiad proses a theori newid), Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023b) Gwerthusiad o PaCE: Gwerthusiad o'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE): adroddiad gwerthuso crynodol terfynol. Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2024a) Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Nodweddion a Phrofiadau'r Cyfranogwyr Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2023b) Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: Gwerthusiad Gwrthffeithiol o Effaith Gwefan Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, a) *Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 1*

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, b) *Business Plan 2014-2020: Communities for Work, East Wales Priority 3*

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, c) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - EWP3*

Llywodraeth Cymru (dim dyddiad, d) *CfW - Extension 2022 - Re-evaluation Business Plan Addendum - EWP1*

Public Health England (2017) Movement Into Employment: Return on Investment Tool Estimation of benefits from moving an individual from unemployment into sustainable employment. Gwefan Public Health England

Sefydliad Joseph Rowntree (2013) Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru. Gwefan Sefydliad Joseph Rowntree

StatsCymru (2023a) *Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig,* Gwefan StatsCymru

StatsCymru (2023b) *Amcangyfrifon poblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran* Gwefan StatsCymru

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2020) Employment Support Department for Work & Pensions, Gwefan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Ymchwil y Senedd (2022) *Llinell amser coronafeirws: yr ymateb yng Nghymru*. Gwefan Ymchwil y Senedd

Ymchwil y Senedd (2023a) *Llinell amser coronafeirws: yr ymateb yng Nghymru*. Gwefan Ymchwil y Senedd

Ymchwil y Senedd (2023b) *Diweddariad ar y farchnad lafur ym mis Gorffennaf 2023* Gwefan Ymchwil y Senedd